YR YMOFYNYDD.

"PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL

RHAGFYR, 1869.

Y DDAU DDATGUDDIAD, SEF Y BEIBL A'R GREADIGAETH.

Yr ydym wedi rhyfeddu lawer gwaith paham na thalai dysgawdwyr crefydd yn gyffredin fwy o sylw nag yr ymddengys eu bod yn wneyd, yn eu pregethau a'u hysgrifeniadau, i'r goleüni mae gwyddoneg *(science)* wedi daflu ac yn daflu o flwyddyn i flwyddyn ar weithredoëdd Duw yn y greadigaeth. Tueddir ni weithiau i dybied nad ydynt yn credu fod y Creawdwr yn datguddio ei hun yn ei weithredoedd, ond yn unig yn ei air, sef y Beibl. A ydynt yn credu nad ydyw y greadigaeth a rhaglun-iaeth yn rhan o air Duw yn gystal â'r Beibl? A ydyw yn bosibl nad oes ond ychydig o honynt yn credu hyn?

Wele *geology*, neu y wyddoneg a ddatguddia i ni gyfansoddiad y bellen ddaearol. Mae y wyddoneg hon yn dangos tuhwnt i bob amheu-aeth nad gwaith chwech diwrnod yw y greadigaeth, fel y darllenwn yn llyfr Genesis. Dengys trwy brofion cedyrn nad all hyn fod yn wir. Darlunia ei chrwstyn. Eglura i ni yn y modd mwyaf amlwg ei fod yn cynnwys nodau eglur i chwyldröadau aruthr gymeryd lle yn mharthau mewnol y ddaear mewn gwahanol oesoedd, y rhai a achosasant gyfnew-idiadau lawer yn ei harwynebedd, gan nydd-droi yn mhob ffordd haenau y creigiau, a gwthio i fynu fynyddoedd lle yr oedd o'r blaen wastadedd, a throi cwmydd a gwastadedd i fod yn fryniau a mynyddoedd. Mae nodau digamsyniol yn ein hynys ni iddi fod fwy nag unwaith yn or-chuddiedig gan y môr, neu y rhan fwyaf o honi. Mae rhesymau cryfion i gredu fod moroedd yn awr yn sefyll ar waelodion a fuont unwaith, os nad rhagor, yn sychdir, ac yn drigfan miloedd o greaduriaid, a llawer o honynt yn wahanol mewn dull a maintioli, i'r rhai sydd yn cyfaneddu y ddaear yn bresenol. Ceir mewn rhai math o greigiau esgyrn creadur-iaid o bob maintioli—anifeiliaid sychdir, ehediaid, a physgod, a'r fath, lawer o honynt nad ydynt i'w cael yn awr yn un parth o'r ddaear. Dwg y *bicas* a'r bàr weithiau i'r amlwg ysgerbydau cyfain wedi caregu fel y graig amgylchynol. Mae miloedd o'r fath weddillion anifeilawl i'w gweled mewn creigiau calch yn neillduol, yn enwedig yn y graig a elwir *lias*. Pan oedd sylwedd y graig galch hòno yn llaid tan ddwr, neu yn waelodion *(deposits)*, cafodd llawer o'r creaduriaid oeddynt yn cyfaneddu y parth hwnw ar y pryd eu treiglo gan lif-ddyfroedd i'r llaid,

a'u claddu ynddo—rhyw gynhyrfiad nerthol yn mherfedd y ddaear yn cymeryd lle. Cafodd y llaid ei wthio i fynu o waelod y dwr nes yr aeth yn sychdir, yr hwn, mewn amser, trwy ryw weithrediad fferyllawl neu gilydd, a ymgaledodd yn graig, ac a gynnwys argraff ysgerbydau y creaduriaid a orchuddiai pan yn ei gyflwr lleidiol. Mae *geology* hefyd yn dwyn profion cryfion i'r amlwg fod y ddaear wedi cael ei chyfaneddu gan amryw doion o greaduriaid—un tô ar ol y llall, a'r tô olaf yn berffeithiach na'r un o'i flaen, ond pob un yn cyfateb i ansawdd yr hîn, y llysieuaeth, a chyflwr arwynebol y ddaear yn yr *era* hòno. Yn raddol, yn ol tystiolaeth *geology*, y cyrhaeddodd y ddaear ei chyflwr presenol; nid mewn chwech mil o flynyddau, nac, fe ddichon, mewn cymaint â hyny o filiynau. Yr ydys yn sicr mai nid gwaith un dydd ydyw y ddaear, nac ychwaith y greadigaeth anifeilawl.

Er hyn oll, yn ngwyneb profion mor nerthol ac eglur, y rhai ni all y mwyaf cywraint wrthbrofi, deil y mwyafrif o ddysgawdwyr crefydd o hyd at yr hen gyfundraeth sylfaenedig ar y bennod gyntaf yn Genesis. "Yr oedd Moses," meddant, "dan ddylanwad dwyfol ysprydoliaeth, am hyny, rhaid ei fod yn anffaeledig, beth bynag yw tystiolaeth *geology* i'r gwrthwyneb. Beth! onid rhyfyg o'r mwyaf yw gosod i fynu unrhyw wyddoneg—myfyrdod dyn yn erbyn yr Yspryd Glân!"

Hefyd, gyda golwg ar y diluw, mae'r profion yn gyflawn mor gedyrn na ddarfu iddo, yn ol yr hanes yn Genesis, orchuddio holl wyneb y ddaear; o ganlyniad, nid yw awdurdod yr hanes hwnw ychwaith ddim mwy i ymddibynu arno na'r hyn a ddarllenwn am waith y chwech diwrnod. Gellid dysgwyl ar ddysgawdwyr crefydd o leiaf i betruso siarad am y diluw fel pe na fuasai un amheuaeth yn nghylch gwiredd yr hanes am dano. A chaniatâu nad ydyw y mwyafrif yn darllen gwaith *geologists*, rhyfedd na chyfodai amheuaeth yn naturiol ar eu meddwl yn nghylch posiblrwydd yr hanes ynddo ei hun. Onid oes ynddo wrthuni? Pa fodd y gallasai creaduriaid gyrchu at yr arch o bob parth o'r ddaear—o'r gwregys crasboeth, o'r *zone* dymherus, ddeau a gogledd, ac o ranau pegynawl y byd? Pa fodd y gallasai llestr mor fach—llai na'r Great Eastern—gynnwys llu mor ddirfawr? Pa fodd y celent awyr a lluniaeth yno? Beth oedd yn lluddias y llew, y tiger, y puma, rhag llarpio y creaduriaid gwâr a llariaidd? Pa fodd y gallasai Noah a'i feibion lanhau tan y fath lu anhywaith, a chadw ei long yn lân ac yn rhydd oddiwrth ddrygsawr eu carthion? Anhawsderau yw y rhai hyn a gyfodant yn naturiol yn meddwl llawer darllenydd pwyllog a meddylgar. Pe buasai y fath hanes mewn unrhyw lyfr hen arall heblaw y Beibl, gwrthodid ef ar unwaith fel chwedl ddisail. "Gwyrth ydoedd," yw'r ateb parod. Mae'r ateb hwn, mae'n wir, yn symud llawer o anhawsderau. Nid oes neb yn credu yn gadarnach na ni mewn gwyrthiau, ond yr ydym yn ceisio bod yn ochelgar iawn i beidio gwneyd trosolion o honynt i symud pethau tywyll. Os gwyrth ydoedd, pa ddyben a allasai ateb? Caniatäer fod y Creawdwr doeth a daionus wedi gweled yn dda, oherwydd rhesymau adnabyddus iddo ei hun, i ddinystrio gwaith ei anfeidrol ddoethineb, oni allasai yr un mor rhwydd greu creaduriaid yn lle y tô a ddyfethodd, heb wneuthur gwyrth o'r fath a ddychymygir? Y mae yn un o reolau deongliad Feiblaidd i beidio symud unrhyw anhawsder drwy wyrth hyd byth ag y gellir, ac nid un amser onid ymddengys fod rhesymau digonol dros gyfryngiad y gallu

Dwyfol. Rheol dda ydyw hon, a phe daliai deonglwyr yn fwy manwl ati, symudid nid ychydig o'r gwrthwynebiadau a gyfyd anffyddiaeth yn erbyn y Beibl. Torid y tir o dan ei thraed, a hyny heb wneuthur un niwed i awdurdod y Beibl fel llyfr a gynnwys ddatguddiad o'r gwir Dduw. Mewn gwirionedd, byddai ei awdurdod yn llawer cryfach. Rhodder yr un chwareu têg i'r Beibl ag a roddir i lyfrau hen ereill, ac y mae yn sicr o sefyll ei dir. Nid yn anfynych y nychir ef gan dirionwch a pharch ansynwyrol ei gyfeillion. Gosodir ef i sefyll ar ffyn baglau, pan y mae yn ddigon abl i sefyll ar ei draed ei hun.

Nis gallwn lai na sylwi, cyn gorphen, fod y farn boblogaidd o gyflawn ysprydoliaeth yn un hollol ddisail. Yn ol y farn hon mae pob gair, ac hyd yn nod pob llythyren, o'r Beibl wedi eu hysgrifenu gan yr Yspryd Glân, oblegid nid oedd yr awdwyr ond offerynau yn ei law. Yn awr, nid yw cofleidwyr y farn hon yn dywedyd wrthym pa gopi o'r Hebraeg neu'r Groeg sydd yn iawn; oblegid y mae llawer o hen gopïau o'r ysgrythyrau ar glawr, ac oll yn gwahaniaethu, i raddau mwy neu lai, oddiwrth y naill a'r llall. Y cyfieithadau hefyd, mae yn ofynol eu bod hwythau dan yr un fath ddylanwad; oblegid os nad ydynt, gallant arwain eu darllenwyr i gyfeiliornad. Ond y mae'r syniad yn rhy wrthun i fod yn ddifrifol yn ei gylch. Ein barn ni ar y peth yw, fod yr ysgrythyrau yn cynnwys datguddiad, ond nad ydyw'r hanes a roddant o ddynion dan ddwyfol ysprydoliaeth ddim wedi cael ei ysgrifenu dan olygiaeth yr Yspryd Glân. Gwyrth fuasai hyny heb ddyben cymhesur iddi; oblegid gallai dyn drwy ei gyneddfau naturiol ysgrifenu i lawr mewn llyfr ffeithiau a fyddent yn wybodus iddo. Yr unig ddylanwad yn eisieu fyddai cydwybodolrwydd i adrodd yr hyn a wyddai yn gymhwys fel y derbyniodd hwynt, heb daflu lliw ar ddim, na thynu dim oddiwrthynt, nac ychwanegu dim atynt. A oes rheswm i gredu na allasai dynion o gyneddfau cyffredin ysgrifenu hanes Iesu Grist? Ymddengys i ni nad oes. Ond i ddychwelyd.

Mewn un peth yn unig, hyd yn hyn, y mae Protestaniaid yn gyffredin wedi dyfod i addef mai gwyddoneg, ac nid y Beibl, sydd iawn. Cyfeirio yr ydym at yr hanes yn llyfr Joshua yn nghylch yr haul a'r lleuad yn sefyll, fel y dywedir, "dros ddiwrnod cyfan" (x. 13). Nid oes dim amheuaeth ar ein meddwl ni nad gwyrth ydoedd y ffaith hòno. Ond gan nad beth am hyny, barn awdwr llyfr Joshua, fel pawb yn yr hen oesoedd, oedd fod dydd a nos yn cael eu hachosi gan yr haul yn teithio yn rownd yn y ffurfafen unwaith yn nghwrs dydd a nos. Mae seryddiaeth er ys hir amser yn awr wedi symud y camsyniad hwn, sef mai nid yr haul ond y ddaear sydd yn cyffro, ac fod dydd a nos yn cael eu hachosi gan y ddaear yn troi oddiamgylch ei phegynau, a hyny yn rownd bob pedair awr ar hugain. Yr oedd hyn yn beth anghredadwy gan lawer, fel y mae y dydd heddyw i rai anwybodus, a daliodd credinwyr yn anffaeledigrwydd y Beibl yn hir allan yn erbyn y syniad. "Rhaid fod y Beibl yn iawn," meddent. Ond yn awr addefir yn gyffredin mai gwyddoneg sydd yn iawn ar y pen hwn, ac nid y Beibl. Yr ydym ni yn credu y daw'r amser hefyd pryd yr addefir yn gyffredin mai hi sydd yn iawn yn nghylch y greadigaeth a'r diluw, yn nghyda rhai syniadau ereill nad oes genym ddim amser i sylwi arnynt yn bresenol.

GWASANAETHU DUW.

Siaredir llawer am wasanaethu'r Arglwydd, ond ychydig o ddynion, ysgatfydd, sydd yn ystyried pa beth yw gwasanaethu'r Arglwydd mewn gwirionedd. Gwneir yn aml, mae'n fwy na thebyg, lawer o bethau nad ydynt mewn un modd yn wasanaeth iddo ef. Efallai, Mr. Golygydd, y rhydd rhai o'ch darllenwyr ychydig fynydau o ystyriaeth i'r llinellau canlynol. Beth bynag a wneir er mwyn boddio Duw, neu mewn ufudddod i'w ewyllys, sydd yn wasanaeth iddo. Mae Duw yn gorchymyn i ddynion i ddywedyd y gwirionedd, i wneuthur cyfiawnder, i hoffi trugaredd, i fyw yn sobr, i wneuthur daioni i bob dyn pan y mae cyfleusdra yn rhoi, i fod yn ffyddlon ac yn garedig i'w gwragedd, i fod yn barchus o'u rhieni, ac i beidio esgeuluso hawddfyd a chymeriad eu plant. Mae Duw hefyd yn ewyllysio i ni ymofyn am y gwirionedd, ac i ymdrechu, hyd y gallom, i'w ledu yn mhlith ein cyd-ddynion yn y byd. Mae yr holl bethau hyn, gan hyny, yn rhan o wasanaeth Duw. Y mae porthi'r newynog, dilladu'r noeth, ymweled â'r claf, cynnorthwyo'r egwan a'r oedranus, amgeleddu'r amddifad, cysuro'r weddw, sobri'r meddw, dynoethi cyfeiliornadau, dysgu'r gwirionedd, ymdrechu difodi pob arferion drygionus a sefydliadau llygredig; diddymu cyfreithiau anghyfiawn, gwasgaru gwybodaeth a chyfiawnder, tangnefedd a rhyddid, purdeb a chymedroldeb, llawndid a chariad dros yr holl fyd,—mae'r holl bethau hyn yn rhanau o'r gwasanaeth dwyfol. Mae llawer o ddynion yn siarad fel pe na byddai dim yn wasanaeth i Dduw ond canu, gweddio, a phregethu mewn eglwysi a chapeli. Dywedant am wasanaeth boreuol, a gwasanaeth prydnawnol, ac am oriau'r gwasanaeth. Wrth y gwasanaeth boreuol y golygir y salmau, y gweddiau, a'r pregethau yr eir trwyddynt yn yr eglwysi a'r capeli yn y boreu; wrth y gwasanaeth prydnawnol y meddylir y salmau, y gweddiau, a'r pregethau a eir trwyddynt yn y prydnawn; wrth oriau'r gwasanaeth y deallir yr oriau a dreulir wrth fyned trwy waith y gwasanaeth. Pan y mae'r offeiriad yn gweddio, pregethu, neu yn rhoi'r salmau allan, dywedir fod y gwasanaeth yn myned yn mlaen; a phan y mae wedi myned trwyddynt oll, dywedir fod y gwasanaeth drosodd. Felly mae dynion yu siarad am *fyned i'r* gwasanaeth, tra y dywedant fod yr offeiriad yn *cyflawni*'r gwasanaeth. Iê yn siwr, yr offeiriad sydd yn *cyflawni*'r gwasanaeth, efe sydd yn gwneyd y cwbl, a'r bobl yn edrych ac yn gwrandaw arno. A glywodd neb erioed ryw un yn dywedyd fod athrawon yr Ysgol Sabbothol, neu amddiffynwyr cymedroldeb a dirwest, yn cyflawni gwasanaeth dwyfol? Nid oes neb byth yn dywedyd mai *divine service* yw tori bara i'r newynog, neu ddysgu dynion ieuainc i ddarllen ac ysgrifenu, neu ddilladu'r noeth, lletya'r digartref, gofalu am blant amddifaid, neu unrhyw weithred arall o dosturi a charedigrwydd. Ni feddyliai neb am alw adeiladu *hospital*, neu *infirmary*, neu ddiwallu dynion â Beiblau a llyfrau da ereill, yn wasanaeth i Dduw, neu yn *divine service*. Er hyn oll, y mae'r pethau yma a'u cyffelyb yn wasanaeth i Dduw, os y gwneir hwynt mewn ufudddod i'w ewyllys. O'r tu arall, mae'n fynych yn dygwydd nad oes gwasanaeth i Dduw o gwbl yn salmau, gweddiau, a phregethau yr eglwysi a'r capeli. Mae un deigryn o dosturi, neu un weithred haelionus, yn wasanaeth mwy cymeradwy gan Dduw na holl ffurfioldeb yr eglwys am gàn mlynedd. Un peth sydd sicr, nid yw Crist wedi rhoddi un gorchy-

myn pendant i ddynion i ddarllen gweddiau neu ganu salmau mewn eglwysi a chapeli; ond y mae yn gorchymyn i ni garu ein gilydd, i wneyd i ereill fel y dymunem i ereill wneuthur i ninau, i borthi'r newynog, i ymweled â'r claf, i ddilladu'r noeth, i roi llety i'r dyeithr-ddyn, i arddel y gwirionedd, ac i ofalu fod ein gweithredoedd da yn llewyrchu ger bron dynion. Heblaw hyn, onid yw yn wirionedd ag y mae llawer, os nid pawb, yn ei wybod, fod y rhai a elwir yn weinidogion yr Arglwydd, yn weinidogion yr Efengyl, y rhai y mae a fynont fwyaf â'r *gwasanaeth*, a elwir felly, amryw o honynt, yn falch, hunangar, meddw, anniwair, aflan, twyllodrus, rhagrithiol, traws, ac yn euog o bob pechod braidd ag y mae cig a gwaed yn agored iddo? Ie, fel y mae gwaetha'r modd, ceir llawer o honynt, er wedi dysgu "gwisgo mîn difrifol," yn fwy parod i bob gwaith nag i wir wasanaethu yr Arglwydd.

Dealled pob dyn mai gwasanaethu Duw yw'r gwaith, ac nad yw i gael ei gyfyngu i gapel nac eglwys, nac i un *class* o ddynion yn neillduol, nac i oriau a diwrnodau neillduol. Gwybydded pawb fod Duw i gael ei wasanaethu gan bob dyn—ei fod i gael ei wasanaethu yn mhob man a phob amser. Bydded i ddynion ystyried mai'r gwasanaeth uwchaf a mwyaf cymeradwy gan Dduw yw gwneuthur daioni. "Ond yn gwneuthur daioni a chyfranu nac anghofiwch: canys â chyfryw ebyrth y rhyngir bodd Duw." "Cyflawnder y gyfraith yw cariad." Am hyny y dywed Iago, "Crefydd bur a dihalogedig ger bron Duw a'r Tad yw hyn: Ymweled â'r amddifaid a'r gwragedd gweddwon yn eu hadfyd, a'i gadw ei hun yn ddifrycheulyd oddiwrth y byd." Ac y mae Paul yn tystiolaethu fod cariad yn fwy na ffydd na gobaith. Yn wir, dywed y Beibl mewn llawer man mai'r gwasanaeth y mae Duw yn ofyn yw, nid canu a gweddio mewn capeli ac eglwysi, ond gwneuthur barn a hoffi trugaredd, ac ymostwng i rodio gydag ef. Gwasanaethu Duw mewn gwirionedd, gan hyny, yw byw yn uniawn, byw yn ufudd iddo, gwneuthur daioni, a bod o ryw fendith yn y byd. Y mae'r penillion canlynol o eiddo yr hen Iolo yn ardderchog dros ben:—

Y grefydd bur anhalogedig,
A grêd gair Duw'n ei gyfiawn bwyll;
A rydd ei fryd yn ostyngedig
Ar bob cyfiawnder yn ddi-dwyll;
A fydd drugarog wrth y gweiniaid,
A llaw ni chrŷn wrth roddi'n rhad;
Yn frawd i'r gweddwon, i'r amddifaid,
Yn ymddwyn â thiriondeb tad.

Y gwir grefyddol hardd ei fywyd,
A rydd ei serch ar bethau gwell;
A chan ymgadw yn ammrycheulyd,
Gâd y byd hwn o'i ol ym mhell.
Boed, O fy Nuw! fel hyn fy muchedd,
Dy 'wyllys mawr fy nghrefydd i;
A bydd awr angeu'n awr tangnefedd,
A'm dwg i mewn i'th deyrnas di.

Mae *amser gwasanaeth*, yn briodol felly, yn dechreu pan yr ydym yn alluog i wybod gwahaniaeth rhwng da a drwg, ac yn diweddu gyda diwedd ein bywyd. *Oriau gwasanaeth* ydynt holl oriau bywyd rhesymol dyn. A chyda golwg ar y *man* neu'r *lle* i wasanaethu Duw, dywedaf, *pob* man lle mae Duw yn ei ragluniaeth wedi peri i'n llinynon syrthio,

pa un ai ar dir neu ar fôr, yn y gwely neu yn y gweithdy, yn y dref neu yn y wlad, ar y ddaear neu yn y nefoedd. Hefyd, nid gorchwyl rhyw *ychydig* bersonau yma a thraw yw'r gwasanaeth dyledus i'r Arglwydd, ond gorchwyl i'w gyflawni gan bob dyn rhesymol. Mae pob dyn ar y ddaear, gwryw a benyw, ffermwr a chloddiwr, gwleidyddwr a glöwr, philosophydd a *gipsy*, gwr llên a gwr llëyg, nid yn unig â chanddo rydd-did, ond hefyd âg arno ddyledswydd i wasanaethu yr Arglwydd bob dydd ac yn mhob man. V.

CREDO SANT ATHANASIUS.

Ar y trydydd ar hugain o fis Mai, ac ar Suliau ereill yn y flwyddyn, mewn deng mil o bwlpudau, cafodd ysgrifenydd y llinellau hyn ei draddodi yn gyhoeddus i Satan, a'i ddamnio am dragywyddoldeb, gan ddarlleniad credo a elwir yn Gredo Sant Athanasius. Mewn gair, gosodai y gredo allan yn eglur fy mod yn ddiamheu yn golledig yn dragywydd. Gyda phob parch i bob awdurdod dduwinyddol, hen neu ddiweddar, nid wyf yn credu hyny. Yr wyf yn meddwl fod y gredo yn llawer mwy tebygol o gael ei cholli; a rhoddaf fy rhesymau dros hyny. Yn y lle cyntaf, nid yw y gredo hon a elwir yn gredo St. Athanasius yn proffesu un hawl i fod yn ysprydoledig. Yr awdurdod uwchaf ag y gall ei hamddiffynwyr hawlio drosti yw, mai sant yw ei hawdwr; ond yn ol pob tebygolrwydd, nis gellir profi fod hyny yn wir. Ond beth os Sant Athanasius a'i hysgrifenodd hi? Nid oedd yr oes yn mha un yr oedd efe yn byw yn oes doethineb nefol, ond yn oes anghydfod ac ymrysonau —yn oes yn yr hon yr oedd esgobion yn melldithio, offeiriaid yn ymladd, cynghorau yn bygwth, a brenhinoedd yn erlid. Ond nid ydym yn meddwl mor isel am Athanasius ag i gredu mai efe a wnaeth y gredo hon. Mae y meddwl mor dlawd, yr iaith mor ddiffygiol, y rhesymeg mor blentynaidd, yr anffaeledigrwydd mor rhyfygus, a'r felldith mor falcisus ac angharedig, fel ag yr ydym yn gobeithio y profir yn y diwedd mai rhywun "mawr anadnabyddus" yw yr awdwr.

Un ffaith deilwng o sylw mewn perthynas i'r gredo hon yw, ei bod yn esgeuluso y Testament Newydd yn hollol. Mae yn ymddangos fel yn dirmygu symlrwydd yr Efengylau, ac yn ymhyfrydu mewn geiriau ffol, rhwysgfawr, ac hollol ddiystyr, y rhai nid ydynt, ac nas gallant gyfleu un meddwl i'r darllenydd. Fe allai y dywedir wrthym fod yr athrawiaeth a osoda allan yn ddirgelwch, a bod hyny yn ddigon i gyfrif am gymeriad neillduol y gredo. Ond beth yw dirgelwch? Mae dirgelwch yn rhywbeth *cuddiedig*, nid rhywbeth anghyson âg ef ei hun. Nis gellir dywedyd dim am ddirgelwch yn rhagor na'i fod yn ddirgel; ond yn y gredo hon, nid yn unig y mae llawer yn cael ei hòni mewn perthynas i'r dirgelwch, ond y mae'r felldith fwyaf ofnadwy yn cael ei dal uwch ein penau fel annogaeth i ni gredu. Mae dirgelwch yn rhywbeth ag nas gellwch weled trwyddo; ond gallwn weled trwy hwn. Mae y gredo yn dywedyd fod y Tad yn Dduw, y Mab yn Dduw, yr Yspryd Glan yn Dduw: pob un yn berson gwahanol, yn dragywyddol a digreuedig (un o honynt wedi ei *genhedlu* er hyny), yn dri bòd gwahanol, a phob un o honynt yn Dduw. Ac etto y mae'n troi oddiamgylch ac yn gofyn arnom i sylwi nad oes, er hyny, dri o dduwiau, ond un yn unig; gan ein bygwth ni â damnedigaeth os na chredwn hyny! *Credu peth?* A ydyw

yn gofyn yn unig arnom i *ddywedyd* ein bod yn credu? neu a ydyw yn gofyn arnom i gredu yn *wirioneddol*? Os y diweddaf, dylasai ei fod wedi ein hysbysu *beth* mae yn ofyn genym i'w gredu. Nid ydyw yn gwneyd dim o'r fath; ond gosoda o'n blaen anghysondeb hollol amlwg, un a bair ddyryswch diddiwedd i bwy bynag a ymdrecho yn ddifrifol i'w amgyffred, ond mor annhebyg i ddirgelwch ag y gall fod—anghysondeb mor anghyson, fel ag yr ydwyf wedi meddwl ambell waith "mai gelyn a wnaeth hyn," a bod y gredo ar ol y cwbl yn waith rhywun a ddymunai daflu diystyrwch ar athrawiaeth y Drindod. Ond yr wyf yn ofni fod y dyb yma yn rhy dda i fod yn wir, a bod yn rhaid i'r gredo gymeryd ei lle yn hanes Cristionogaeth fel un o wir gynyrchion ffydd a bywyd yr Eglwys.

Os trown i'r Testament Newydd, y fath gyfnewidiad sydd yno! Pe byddem ni yn cymeryd yn ganiataol fod athrawiaeth Duwdod Crist i'w chael yno,—tybiaeth nad yw wedi ei phrofi etto, ond goddefol am ychydig fynydau,—yn sicr nid ydym yn cael fod yr athrawiaeth yn cael ei thrin yno yn y dull diofal a dyrys ag y mae yn y gredo hon. Ac yn awr yr ydym yn dyfod at yr hyn sydd yn ei gwneuthur yn neillduol wrthwynebus ac annyoddefol. Nid ydyw yn dywedyd y collir ef yn dragywydd yr hwn sydd yn gwadu Duwdod Crist, ond yr hwn nid yw yn "synied felly am y Drindod." Felly y mae hyd yn nod y rhai ydynt yn credu yn y Drindod mewn perygl o gael eu melldithio gan y gredo hon. Nid yw, gan hyny, yn bwnc i'r Undodwr yn unig, ond mae yn bwnc i'r Eglwyswr hefyd; ac os nad ydym yn camesponio arwyddion yr amserau, mae yn bwnc sydd ar ei ffordd i gael ei benderfynu yn fuan; a hyny nid yn ffafr yr offeiriad.

Ond a chaniatâu fod athrawiaeth Duwdod Crist i'w chael yn y Testament Newydd, b'le mae y felldith i'w chael ar ben y rhai na allant ei gweled yno, ac na allant gredu ynddi? Er mwyn cael hyny allan, mae yn rhaid i ni droi o'r Efengylau at y gredo. Etto, pa hawl sydd gan un dyn i gynllunio melldithion ar ben ei gyd-ddynion? Nid oedd Crist yn caru melldithio; ac ni felldithiai byth o herwydd gwahaniaeth barn. Llais y Testament Newydd yw,—Crist a ddaeth i geisio ac i gadw dynion, i achub dynion oddiwrth bechod, i'w dwyn at gariad Duw, ac at wasanaeth dyn: ac yr ydym yn edrych yn ofer am yr achlysur pan y dysgodd efe y pynciau a gynhwysir yn y gredo dan sylw. Ac etto, os yw y felldith mor hanfodol, buasai wedi cael ei dwyn i mewn yn *rhywle;* yn sicr ni fuasai Crist wedi ei anghofio; ni fuasai Paul wedi ei gadael allan, nac Ioan ei phasio heibio. Paham, gan hyny, y dylai yr offeiriaid ein melldithio ni, pan y mae Crist yn ein bendithio ni yn unig? "Gwyn eu byd y trugarogion," meddai efe; "gwyn eu byd y pur o galon; gwyn eu bydd y tangnefeddwyr; gwyn eu byd y tlodion yn yr yspryd;" gwyn eu byd hwy oll: "canys hwy a welant Dduw." "Na," yn ol y gredo farbaraidd hon, "ni fydd gwyn eu byd os nad ydynt yn synied felly am y Drindod. "Pwy bynag a fyno fod yn gadwedig, mae yn rhaid iddo *o flaen dim* addoli un Duw yn Drindod, a'r Drindod yn Undod:" "o flaen dim"—o flaen cariad, duwioldeb, rhinwedd, brawdgarwch, neu yspryd Crist. A ddyweda rhywun fy mod yn gwasgu geiriau y gredo i eithafion? Bernwch, gan hyny, y pren wrth ei ffrwyth, a gwelwch y fath ffrwythau mae y pren chwerw wedi ddwyn. Ac hyd yn nod yn ein hamser ein hunain, gwelwch yr hyn sydd yn

dygwydd yn fynych; gwelwch beth mae dynion a ddysgir i fynu yn yspryd y gredo yma yn wneuthur—sut y maent yn casâu ac yn difenwi dynion, yn erbyn cymeriad Cristionogol y rhai nid yw hyd yn nod rhagfarn sectol wedi beiddio sisial gair—dynion o fywydau difeïus, o gyrhaeddiadau godidog, o dduwioldeb amlwg—dynion a adnabyddir ac a ddarllenir am danynt gan bawb, y rhai, oherwydd rhyw wahaniaeth duwinyddol mewn barn, a ystyrir yn deilwng o ysgymundod o'r Eglwys, ac o gospedigaeth dragywyddol yn uffern. Mae eu rhinwedd yn cael ei hanghofio; nid yw eu duwioldeb yn werth dim; edrychir yn ddiystyr ar eu dysgeidiaeth; ychwanegir purdeb eu calon at euogrwydd eu rhyddymofyniad; ac nis gall amddiffynwyr awdurdodedig y credöau ond edrych yn wgus arnynt a'u dirmygu. Gallant oddef anwybodaeth a rhyfyg, ac hyd yn nod ymhyfrydu mewn casineb, gelyniaeth, a phob anghariad; gallant hyd yn nod gau eu llygaid ar ddynion ag y mae dull eu bywyd mor amhëus ag yw eu hiawn-ffyddiaeth yn sicr; ond cuddia iachusrwydd yn y ffydd luaws o bechodau. Gellwch brynu bywioliaeth, a gellwch fasnachu mewn eneidiau; gellwch dderbyn bywioliaethau lle nad ydych yn bwriadu byw, neu fyw lle nad ydych yn bwriadu gweithio, ac ni chyfyd neb fŷs bach yn eich erbyn. Ond os bydd i chwi sisial gair yn unig yn erbyn yr erthyglau, ac anadlu sill yn erbyn y credöau; os beiddiwch chwi amheu a oedd Moses yn deall daeareg yn drwyadl, neu daflu *hint* fod ffeithiau yn eiriau Duw yn gystal â chasgliad o lyfrau hynafol,—yna gellwch ddysgwyl dynesiad ystorm ddidrugaredd o enllib, bygythion, a cherydd, i'ch croesawi. Beth mae hyny yn brofi mewn perthynas i ffrwythau y fath gredöau niweidiol? Yn sicr y mae yn arwyddocäol o *rywbeth*, pan y mae Eglwys y Llywodraeth yn cael ei siglo i'w sylfaeni gan sŵn heresi, tra mae yn aros yn dawel yn nghanol lluaws o bechodau amlwg. Mae yn dangos fod dynion yn cael eu rhwymo law a throed gan y goelgrefydd ofnadwy fod iawn-ffyddiaeth yn fwy pwysig na duwioldeb, a bod purdeb y gredo o flaen purdeb y galon.

Yr wyf, gan hyny, yn gofyn i'r offeiriad a'm damniodd i ar y trydydd-ar-hugain o Fai,—A ydych chwi yn credu yn wirioneddol y condemnia Duw fi am byth oherwydd fy mod wedi methu gweled ystyr y gredo dan sylw? Yn bersonol nid oes genyf unrhyw hawl neillduol i gael fy ystyried yn dduwiol, yn santaidd, ac yn dda; ond y mae degau o filoedd ag ydynt yn gwrthod eich credo chwi yn dduwiol, yn santaidd, ac yn dda. A ydych chwi yn credu yn gadarnhaol y bydd i'r rhai hyn gael eu hanfon i uffern, tra y croesawir derbyniwr parod a diofal rhês o eiriau i'r nefoedd? A ellwch chwi gredu fod iachawdwriaeth yn ymddibynu ar ymadroddion, ac y caiff dynion eu damnio am air? A feiddiwch chwi gredu y bydd credo yr iawn-ffyddiog yn ysgrifenedig uwchben y pyrth, ac y troir pawb allan yn ddidrugaredd na allant seinio eu *shibboleth* hwy? A ydyw Channing, er fod ei gymeriad wedi ei addurno â santeiddrwydd amlwg, tynerwch cariadus, mawredd meddwl, ac addfwynder yspryd,—a ydyw efe wedi gadael y byd hwn yn unig i gael ei golli yn nghwmpeini miloedd a aethant o'i flaen ef, a miloedd o'r un ffydd âg ef ydynt wedi ei ganlyn? Os dywedwch, *Ydyw*, fy ateb yw hyn,—Lle mae eu heneidiau hwy, gadewch i fy enaid inau fod hefyd. Os nad yw y nefoedd yn lle i rinwedd, cariad, santeiddrwydd, a phurdeb, ond yn wobr am iawn-ffyddiaeth ac ymlyniad wrth gredöau, gadewch

i mi fod heb y nefoedd. Os yw dynion i gael eu colli yn ol hyd eu credo, ac os yw rhyw bynciau duwinyddol o flaen pob peth yn nhrefn iachawdwriaeth—os rhaid i rinwedd, purdeb, mawrfrydigrwydd, cariad at Dduw, cariad at Grist, a chariad at ddyn fyned i uffern—os byddant yn preswylio yn mynwes *hereticiaid*—yna gadewch i minau hefyd fyned i'r ffordd y mae'r eneidiau mawr hyny wedi myned arni; oblegid bydd y tywyllwch yn oleuni oddiamgylch i ni, ac ar ganol nos ni a ganwn ganiadau buddugoliaeth yn ein carchardy tragywyddol.

Ond, mewn gwirionedd, mae dynion wedi laru ar y credöau yma, y rhai ydynt yn cyflawni y pechod dyblyg o gabledd yn erbyn Duw ac yn erbyn dynoliaeth. Yr ydym yn byw mewn gwell amser na phan y cafodd y gredo hon ei hysgrifenu. Nid yw yr offeiriaid mwyach yn cadw dynion rhag meddwl drostynt eu hunain, ac nid ydynt mwyach yn alluog i gadw y meddwl dynol yn glöedig; ac nid yw dynion mwyach yn credu fod yr Eglwys yn dal agoriadau y nefoedd ac uffern; ac y mae hyd yn nod y rhai ydynt yn adrodd yr hen eiriau yn esgeuluso eu hystyr. Y mae dynion yn dyfod allan o'r Eglwys, lle y clywsent ni yn cael ein condemnio i golledigaeth dragywyddol, yn parhau er gwaethaf hyny i fod yn gyfeillgar ac yn gysurus gyda ni. Yr oedd y masnachwr a glywsai ei gyfaill yn cael ei ddamnio ar y trydydd-ar-hugain yn ei gyfarfod ar y pedwerydd-ar-hugain gyda chroesaw calonog, ac yn anghofio y gredo a'i cyhoeddasai yn golledig. Y gwirionedd yw, nid yw dynion yn credu ynddi. Mae yr hen Eglwys, druan, yn myned oddiamgylch-ogylch yr hen olwyn byth a hefyd, gan "ddywedyd neu ganu" yr hen felldith, ond pwy sydd yn gofalu? Gellir gwneyd llŵ o ffyddlondeb i'r gredo, ond y mae gan ddynion ffyrdd dirgel o'r eiddynt eu hunain i dagu yr hyn maent wedi gymeryd i'w mynwesau; mae ychydig o'r rhai hyn yn meddwl eu bod yn credu yn y gredo, ond mae y mwyafrif mawr yn ei gwrthod yn gyhoeddus, neu yn ocheneidio am ymwared oddiwrthi, neu yn gobeithio na phrofa ei melldithion hi yn wir.

Beth, gan hyny, sydd genym i'w wneyd? Ai bod yn llonydd, a pheidio dywedyd dim yn nghylch y peth? Ai gadael i bethau gymeryd eu cwrs, a gwenu yn dawel wrth weled sut y mae rhyddid yn gweithio ei ffordd? Buasai hyn yn hawdd ac yn ddiogel, ond ni fuasai yn gyfiawn nac yn wrol. Y mae amser i garu ac amser i gasâu, amser i adeiladu ac amser i fwrw i lawr, amser i ryfel ac amser i heddwch; ac yr wyf yn meddwl fod hwn yn amser i lefaru yn eglur ac yn ddidderbyn wyneb yn nghylch y pethau hyn; oblegid mae y gredo naill ai yn wir neu i'r gwrthwyneb, pan y mae yn dywedyd, "Yn ddiamheu y collir ni yn dragywydd," oni chredwn ynddi. Nid ydwyf fi, o'm rhan fy hun, yn ofni y bygythiad, ac yr wyf yn sicr nad wyf yn credu y gredo; eto, fel y dywedais o'r blaen, yr wyf yn gobeithio na chaf fy namnio.

J. P. H.

Y BENNOD GYNTAF O'R HEBREAID.

(Parhad o tudal. 182.)

Adnod 6. *A thrachefn, pan yw yn dwyn y cyntaf-anedig i'r byd, y mae yn dywedyd, Ac addoled holl angelion Duw ef.*] Yn ol fel y saif y gair Groeg *palin*, a gyfieithir *drachefn* yn yr adnod, dylai y rhan flaenaf o honi fod fel

hyn, *Pan yw yn dwyn drachefn y cyntaf-anedig i'r byd;* a thybia rhai y cyfeiria yr awdwr, nid at enedigaeth yr Iesu, ond at ei adgyfodiad o feirw. Y mae Belsham a Valpy o'r farn hon. Dywed Wakefield fel yma ar y pen hwn:—"Mae yn eglur fod y gair *palin* yma allan o'i le priodol, i'r hwn yr ydwyf wedi ei adferyd, yn ol y cyfieithwyr Syriaeg ac Ethiopaeg. Y mae y cyfieithwr Coptaeg wedi ei adael allan yn hollol. Tybied wyf nad oedd yn hoffi sefyllfa y gair." Meddwl ydym ni mai y cyfieithad Cymraeg sydd yn iawn, ac fod yr awdwr yn defnyddio y gair yn yr un ystyr ag y gwna yn yr adnod flaenorol. Cyfeirio y mae, debygem, at enedigaeth yr Iesu, ac nid at ei adgyfodiad o feirw.

Gelwir yr Iesu yma yn *gyntaf-anedig*. Fel y sylwasom o'r blaen, yn mhlith yr Iuddewon meddai y mab hynaf mewn teulu freintiau mwy na'i frodyr. Mewn anrhydedd ac awdurdod efe oedd nesaf at y tad, a phan fyddai y tad farw, ar y mab hynaf y disgynai y gofal. Efe oedd i drefnu achosion y teulu, ac yr oedd pob aelod o hono yn rhwym o ufuddhau iddo. Yr oedd ei ran ef o gyfoeth ei dad yn ddau cymaint ag a gai neb o'r plant ereill. Mewn gair, efe oedd y blaenaf, y penaf, a'r mwyaf ardderchog o'r teulu. Mae y gair yn cael ei gymhwyso at Grist mewn ystyr draws-sylweddol. Efe yw y blaenaf yn nheulu Duw, sef yr eglwys. Y mae yr Apostol yn ei alw "yn gyntaf-anedig yn mhlith brodyr lawer," (Rhuf. viii. 29.), hyny yw, y mwyaf awdurdodol o bawb Crist'nogion. Efe, tan Dduw, ddygodd fywyd ac anfarwoldeb i oleuni. Efe oedd yn mynwes y Tad, ac a'i hysbysodd i ni. Efe, gan hyny, yw y blaenaf yn mhlith pawb o'i frodyr. Geilw yr un Apostol ef hefyd "Cyntaf-anedig pob creadur," (Col. i. 15.), sef pob creadigaeth—y greadigaeth foesol ac ysprydol dan yr Efengyl, yr hon a elwir yn greadigaeth newydd. Mae'r dyn, ar galon yr hwn y dylanwada yr Iesu, yn dyfod yn greadur newydd mewn cydmariaeth i'r peth oedd o'r blaen. Crist yw y blaenaf, y penaf mewn pob creadigaeth foesol ac ysprydol yn ei eglwys. Mae yn cael hefyd ei alw gan yr un Apostol "yn gyntaf-anedig oddiwrth y meirw," (adn. 18.), sef y blaenaf o bawb dan yr oruchwyliaeth newydd a gyfododd Duw o feirw. Mewn ystyr, gellir dyweyd am dano iddo gael ei eni o angeu.

Yn yr adnod dan sylw y mae'r gair "cyntaf-anedig" yn gyfartal i'r gair Messiah neu Crist. Nis gall neb a ddarllena y ddwy bennod gyntaf o'r Epistol hwn lai na gweled fod yr awdwr yn ofalus i beidio enwi yr Iesu yn rhy fyrbwyll, rhag ofn tarfu ei ddarllenwyr Iuddewig; oblegid yr oedd eu rhagfarn yn lled gryf yn ei erbyn fel y Crist. Geilw enwau mawr arno i'r dyben i'w parotoi yn raddol i dderbyn enw yr Iesu. Mae hyn yn gyfrwysdra canmoladwy mewn awdwr, fel mewn pregethwr, pan yn anerch dynion a ŵyr fod eu rhagfarn yn ei erbyn.

Ac addoled holl angelion Duw ef.] Tybir yn gyffredin mai dyfyniad yw y frawddeg hon o Salm xcvii. 7, ac o'r cyfieithad a elwir "Y Deg-a-thriugain." Cyfieithad o'r Hebraeg i'r Groeg ydyw hwnw a wnaed yn yr Aipht yn nheyrnasiad Ptolemy Philadelphus oddeutu dau cant a thri ugain a dwy ar bymtheg o flynyddau cyn geni Crist. Yr oedd llawer o'r Iuddewon yn yr Aipht yr amser hwnw. Yn wir yr oedd ganddynt deml yno. Groeg oedd iaith dysgedigion yn eu plith. Ychydig oeddynt yn deall hen iaith eu cyn-deidau, sef yr Hebraeg. Gwnaed y cyfieithad hwnw er mwyn y Groegwyr Iuddewig. Daeth i arferiad cyffredin. O'r cyfieithad yma mae'r Apostol ac ysgrifenwyr boreuol yr eglwys yn

dyfynu yr Hen Destament, ac yn eu plith awdwr yr Epistol at yr Hebreaid.

Os dyfyniad o'r Salm a enwyd yw y geiriau dan sylw, y mae'r awdwr wedi rhoddi meddwl gwahanol iddynt. Gorchymyn y duwiau wna awdwr y Salm i addoli Jehovah, Duw Israel, sef duwiau y cenhedloedd, debygem: ond yn y Deg-a-thriugain mae y gair duwiau (Elohim) wedi cael ei gyfieithu "angelion," ar ba awdurdod nis gwyddom.

Ond gan nad beth am hyny, tueddir ni i gredu mai cyfeirio mae yr awdwr at enedigaeth Crist a'r angelion a sonir am danynt yn Luc ii. 10—15. Dywedir yno i angel a lluaws o lu nefol yn molianu Duw ymddangos i fugeiliaid. Yr achos oedd y dygwyddiad a gymerodd le, sef genedigaeth ceidwad yn ninas Dafydd, neu ddygiad y cyntaf-anedig i'r byd. Er nad oes yno orchymyn i'r angel a'r llu nefol i addoli y cyntaf-anedig, yr oedd eu moliant yn ddigon i ddwyn ar gof eiriau y Salmydd—"Ac addoled holl angelion Duw ef."

Nid oes dim amheuaeth genym ni nad dwyfol addoliad a feddylia awdwr yr Epistol. Mae y geiriau a briodolir i'r lluaws, debygem, yn arwyddo hyn,—"Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd, i ddynion ewyllys da."

Gwyddoch y dyfynir y geiriau hyn yn fynych gan awdwyr Trindodawl i brofi fod Iesu Grist yn wrthddrych addoliad crefyddol. Meddyliant fod yr adnod yn penderfynu y cwestiwn ar unwaith. "Os yw yn wrthddrych addoliad i angelion, pa faint mwy i ddynion?"

Fel y sylwasom yn barod, ymddengys i ni mai addoliad crefyddol a feddylia yr awdwr. Chwi wyddoch fod y gair addoli yn cael ei arferyd mewn dau ystyr yn yr Ysgrythyrau. Dynoda addoliad dwyfol y fath a roddir i Dduw. Dyma'r ystyr yma. Mae hefyd yn cael ei arferyd yn fynych, yn enwedig yn yr Efengylau, i ddynodi y parch hwnw a ddangosir yn y dwyrain trwy grymu i lawr ar y gliniau, a'r talcen yn cyffwrdd â'r llawr. Darfu i ni gael y cyfleusdra unwaith i ganfod Hindoo yn gwneuthur ymgrymiad, ac ni anghofiwn byth o hono. Eglurhaodd i ni ar unwaith y meddwl hwn o'r gair. Yr oedd Crist yn fynych yn cael ei addoli yn yr ystyr hwn.

Gwrthodwn yr adnod hon fel cadarnhad o'r dyb fod y Cyfryngwr yn wrthddrych addoliad crefyddol,

1. Oherwydd mae yn amhëus iawn a yw yr Epistol hwn o awdurdod Apostolaidd. Ni wyddys pwy yw ei awdwr. Tybia llawer, mae'n wir, mai'r Apostol Paul ydyw. Os efe a'i hysgrifenodd, mae yn wahanol mewn ieithwedd a sylwedd i'w epistolau ereill. Hefyd, yr oedd yn arfer gan yr Apostol osod ei enw wrth ei epistolau. Paham nad arddelodd yr epistol hwn? Nid oes un rheswm digonol. Nid ydym ni yn gallu credu mai'r Apostol yw ei awdwr.

2. Y mae'r athrawiaeth fod Crist yn wrthddrych addoliad dwyfol yn groes i ganol-swn yr Ysgrythyrau. Yn ol y Beibl, Jehovah yw unig wrthddrych gwir addoliad. Efe yw ein Creawdwr. Arno ef yr ymddibynwn am ein bôd a'n bywyd, a phob braint a thrugaredd. Gall fod bodau goruchel yn y greadigaeth—llawer uwch a mwy eu gallu na dyn. Os oes, ar yr Hollalluog yr ymddibynant fel ninau. Un yw gwir wrthddrych addoliad, sef Duw yn unig.

Yn olaf, Os Crist yw'r Angel a gyfenwa ei hun Alpha ac Omega yn llyfr y Datguddiad, (pen. xxii. 9,) ac yn ymddiddan â Ioan, y mae Crist

yn gwrthod addoliad crefyddol yn bendant. "A myfi Ioan a welais y pethau hyn, ac a'u clywais. A phan ddarfu i mi glywed a gweled, mi a syrthiais i lawr i addoli ger bron traed yr angel oedd yn dangos i mi y pethau hyn. Ac efe a ddywedodd wrthyf fi, Gwel na wnelych: canys cydwas ydwyf i ti, ac i'th frodyr y prophwydi, ac i'r rhai sydd yn cadw geiriau y llyfr hwn. Addola Dduw." Mae rheswm cryf i gredu mai Crist oedd yr angel.

Meddyliasom orphen ein nodiadau ar y bennod yma y tro hwn; ond cynnyddant fel y cychwynwn yn mlaen. Esgusodwch ni. Rhaid i ni ddychwelyd ati eto.

JERUSALEM AR WYL Y PASC.

Traetha yr hanesydd Josephus, yn "Rhyfel yr Iuddewon," llyfr vi., pen. 9, rhan 3, fod nifer yr ŵyn a laddwyd un flwyddyn yn amser y Pasc yn ddau cant ac un fil ar bymtheg a deugain. Yn awr, ac ystyried, fel y sylwa yr hanesydd, fod deg o bersonau yn bwyta o'r oen, ac weithiau yr oedd o ddeg i ugain, canlyn fod y werin a ymwelodd y flwyddyn hòno â'r ddinas yn ddwy filiwn a phum cant a thri ugain mil o bobl; ac nid oes lle i feddwl fod y nifer, y Pasc hwnw, yn fwy nag arferol. Y peth a ymgynyg i feddwl y darllenydd yw, pa fodd y gallasai y fath luaws gael llety a lluniaeth yn y ddinas?

Dichon fod yr hyn a ganlyn yn egluro y peth. Mae un Mr. Pitts yn desgrifio yr hyn a welodd yn Mecca, dinas santaidd y Mahometaniaid, i'r hon yr ymgynull yn flynyddol nifer fawr o bererinion i gadw gŵyl eu prophwyd. Dywed y teithydd nad oedd efe yn meddwl fod yn Mecca fwy na mil o deuluoedd, a bod y tai yn wael a gwasgaredig. Dywed hefyd fod tair mintai yn dyfod yno bob blwyddyn, a phob un o honynt yn cynnwys nifer fawr o bobl—dim llai, i gyd, na thair mil a thri ugain, yn ol barn rhai o'r Mahometaniaid. Er nad oedd efe yn meddwl fod y nifer cymaint, nid oedd dim amheuaeth ganddo nad oedd yn fawr iawn. Pa fodd y gallai gwerin mor fawr gael lluniaeth à llety mewn lle mor fychan â Mecca sydd gwestiwn a ateba Mr. Pitts fel hyn: —Ymwasga y trigolion gymaint a allant i roddi lle i'r dyeithriaid er mwyn y tâl, ac felly y mae llawer a ddeuant yn gynar yn cael llety yn y ddinas; ond y sawl a ddeuant yno ar eu hol ydynt yn gorfod gosod i fynu bebyll yn y maesydd amgylchynol, a byw ynddynt tra fyddont yno. Pob math o ymborth ond cig, yr hwn a geir yn Mecca, a ddyg yr ymwelwyr gyda hwynt, megys ymenyn, olew, mêl, reis, grawn olewydd, bara caled, ac hefyd llestri i drin bwyd, ac ymborth i'r camelod.

Ond yr oedd y nifer o Iuddewon a ymwelent â Jerusalem, yn enwedig ar ŵyl fawr y Pasc, yn llawer mwy lluosog na phererinion Mecca—yn fwy na dwy filiwn, yn ol tystiolaeth Josephus, fel y gwelwch uchod. Ac er fod Jerusalem yn llawer mwy na Mecca, nid oedd yn ddigon helaeth i gynnwys y bedwaredd ran o'r fath luaws. Ac am ymborth, hwy a ddifäent bob gronyn yn y ddinas mewn ychydig oriau. Digon tebyg, gan hyny, fod miloedd o honynt yn byw mewn pebyll oddiamgylch y ddinas, fel y mae yn arfer gan bererinion Mecca, ac yn cludo gyda hwynt bob ymborth angenrheidiol at eu cynnaliaeth tra yn aros yn yr ŵyl.

SMALCIUS.

Yn awr, ddarllenydd, ni a ddychwelwn at Smalcius dros ychydig fynydau. Yn mywyd pob gweinidog yr efengyl nis gall lai na bod llawer o amrywiaeth. O ddydd i ddydd, o wythnos i wythnos, ac o flwyddyn i flwyddyn, mae yn myned trwy yr un gwaith, heb nemawr o wahaniaeth rhwng un wythnos a'r llall. Pregethu, esbonio yr Ysyrythyrau, ymweled âg aelodau ei eglwys, gweinyddu cysur i'r cleifion, addysgu ieuenctid ei gynulleidfa, sydd waith beunyddiol. Gorfydd ar lawer un hefyd, nid yn unig yn Nghymru, ond mewn gwledydd Protestanaidd ereill, gadw ysgol ddyddiol er mwyn cael cynnaliaeth y bywyd hwn—ei gynulleidfa, fe ddichon, er yn ewyllysgar, yn rhy dlawd i'w gynnal yn annibynol ar orchwylion bydol. Gan hyny, nid oes nemawr o gyfnewidiad yn mywyd gweinidog—dim dygwyddiadau cyffrous yn cymeryd lle. Mae hanes un flwyddyn o'i fywyd, ar y cyfan, yn siampl o'r dull a'r modd y treulia ei oes.

Yn fuan wedi dyfodiad Smalcius i Poland, ymddiriedwyd iddo ofal yr ysgol yn Smigel, tref fechan nid pell iawn o Racow. Nid dynion diymdrech i daenu eu hegwyddorion crefyddol oedd Undodiaid Poland. Yr oedd eu crefydd yn beth o'r pwys mwyaf yn eu golwg. Nid arbedent na'u cyrff, na'u meddwl, na'u meddiannau, i wneuthur y golygiadau crefyddol, a weinyddent gymaint o gysur iddynt eu hunain, yn wybodus i ereill; am hyny cynnalient a danfonent ddynion cymhwys at y gwaith i fod yn genadon drwy yr holl wlad. Y canlyniad oedd, yn yr amser hwn, nad oedd nemawr o dref na phentref yn Poland nad oedd yno eglwys Undodaidd. Yn Racow, Cracow, Pine Row, Lubec, Lublin, a Dantzic, yr oedd yr achos yn dra blodeuog. Cynnwysai eu heglwysi y dynion mwyaf dysgedig a chyfrifol yn holl Poland. Lle bynag y byddai yr eglwys yn ddigon cryf, sefydlai ysgol ddyddiol i addysgu eu plant eu hunain, a phlant pawb ereill a ddewisent eu danfon yno. Y gynulleidfa oedd yn apwyntio y meistr. Ysgol o'r fath hyn oedd yr un yn Smigel.

Treuliodd Smalcius yn agos i chwech mlynedd yn Smigel, sef hyd y flwyddyn 1598, a chyflawnodd ei swydd fel ysgolfeistr yn selog ac yn ddidwyll, gan roddi ei holl egni i'r gwaith. Y canlyniad fu iddo roddi boddlonrwydd mawr i'r eglwys ac i rieni y plant. Cynnyddodd yr ysgol, ac yn mhlith ei ysgolheigion yr oedd llawer o blant pendefigion. Gyda golwg ar ei ymddygiad at yr ieuenctid dan ei ofal, yr oedd yn serchog a charüaidd, ond ar yr un pryd yn ddianwadal. Gwyddent fod yr hyn a ddywedai yn safadwy ac i gael ei wneyd. Cerid ef yn fawr gan bawb yn yr ysgol, hefyd yr oedd arnynt ei ofn. Yr oedd ei bresenoldeb yn creu rhyw fath o fraw nas gellir ei ddesgrifio. Gwyddent ei fod yn ysgolhaig trwyadl, ac nad oedd, fel llawer, yn cymeryd arno ddysgu i ereill yr hyn na wyddai ei hunan. Mae hyn yn fantais fawr i ysgolfeistr, oblegid mae ei ddylanwad yn llawer mwy ar yr ysgolheigion. Meddai Smalcius hefyd ar y ddawn nid cyffredin o wneuthur peth yn amlwg i feddyliau ieuainc. Y mae llawer o ysgolheigion da nad ydynt yn meddu un mymryn o'r gallu hwn. Dywedasom fod plant pendefigion yn cyrchu i'w ysgol. Yn eu plith yr oedd tri mab y foneddiges Elizabeth Zborowska, sef Alexander, David, a Jerome. Gweddw John Tarnovius ydoedd yr hynafwraig hon. Ymgeleddodd Tarnovius lawer un dan

erledigaeth, ac yn eu plith yr ysgrifenwr galluog hwnw, Andrew Modrevius, y mwyaf llym a ysgrifenodd erioed yn erbyn y Pabyddion. Wedi marw Tarnovius, priododd yr ardderchog Andrew Dudith* ei weddw, ond plant Tarnovius oedd y tri uchod.

Nid oedd Smalcius hyd yn hyn wedi uno â'r eglwys Undodaidd; ond yn awr gwnaeth yn wybodus i'r gynulleidfa yn Smigel fod dymuniad ganddo i gael ei fedyddio a'i gyfrif yn aelod. Cyflawnwyd y ddefod dydd Nadolig, yn y flwyddyn 1592. Gwnaeth uniad dyn ieuanc mor obeithlawn y diwrnod hwnw yn fwy nodedig nag arferol yn y gynulleidfa yn Smigel, ac i achos yr Undodiaid yn gyffredin trwy holl Poland; oblegid yr oedd Smalcius, nid yn unig yn ddyn ieuanc dysgedig a difrycheulyd ei ymarweddiad, ond yn ddyn yn meddu ar egni a sêl—yn ddyn i weithio, ac yr oedd eisieu gweithwyr y pryd hwnw yn neilldnol yn y winllan Undodaidd yn Poland.

Ei ofal cyntaf wedi iddo ymsefydlu yn Smigel oedd ei fam, yn awr yn tynu ar ei hoedran, a bron yn ddiymgeledd, yn Gotha—ei le genedigol. Penderfynodd i ymofyn am dani i Smigel i fyw gydag ef. Cyflawnodd y daith yn nyfnder y gauaf—dros chwech cant o filldiroedd yn ol ac yn mlaen. Yr oedd y ffyrdd y pryd hwnw hefyd yn ddrwg, ac nid yn hollol ddiberygl o ran yspeilwyr. Er hyny, dychwelodd, â'i fam gydag ef, wedi bod fis ar y daith, ac i dŷ y foneddiges a enwyd uchod, yr hon a roddodd dderbyniad croesawus a gwresog iddynt ill dau. Yn wir, yr oedd ei thŷ hi yn wastad yn agored i bawb o bob enwad, yn enwedig i'w brodyr yn y ffydd. Yn y flwyddyn ganlynol dechreuodd ei ffordd i Gotha yr ail waith i ymofyn hefyd ei chwaer, yr hon a elwid Osanna, i fyw gydag ef a'i fam, a chychwynodd mor belled â Leipsic. Yno cyfarfu â marsiandwyr o Gotha, y rhai a'i hysbysasant fod gorchymyn wedi ei roddi i'r cwnstebli ei ddal, ac na wnaeth ond prin dianc y tro diweddaf y bu yno yn ymofyn ei fam, oblegid dywedasant wrtho i'r warant i'w ddal gael ei danfon allan y dydd yr ymadawodd. Oherwydd hyn dychwelodd i Smigel heb gyflawni ei fwriad. Yr oedd y sŵn wedi myned allan yn Gotha ei fod yn gwadu y Drindod, ac o ganlyniad yn heretic o'r lliw duaf. Rhag ofn, gan hyny, iddo daenu ei syniadau cyfeiliornus yn Gotha iawnffyddiog, barnodd yr awdurdodau mai doeth fyddai ei osod mewn dalfa. Edrychai Smalcius ar y waredigaeth a gafodd y pryd hwnw fel yn drefn rhagluniaeth. Yn yr oes hòno, ac yn llawer diweddarach, yr oedd amheu gwirionedd y Drindod yn beth peryglus yn mhob gwlad ond yn Poland. Oherwydd hyn gorfu ar y ddau Sosinus, a llawer ereill, ymadael â'u gwlad; ac oherwydd hyn y condemniwyd Servetus i'r fflamiau. Yn y wlad hon, hyd y flwyddyn 1811, gallesid carcharu Undodwyr, os nid eu rhostio yn fyw, pe cymerasai rhywun ar ei galon i osod y ddeddf yn nghylch llosgi hereticiaid mewn grym.

Yn y flwyddyn 1594 priododd, a bu yn llwyddianus yn ei ddewisiad o wraig—peth o'r pwys mwyaf i bob dyn, yn enwedig i weinidog yr Efengyl. Enw yr hon a ddewisodd i fod yn gymhares bywyd oedd Agnes Blechow, yr hon oedd o dylwyth cyfrifol. Dywedir ei bod yn fenyw o gyneddfau cryfion, ac yn meddu tymherau mwynaidd a serchog. Fel y sylwyd am wraig Crellius, yr oedd yn mhob ystyr yn addas i fod yn

* Yr ydym yn bwriadu rhoddi hanes bywyd Dudith cyn bo hir yn yr YMOFYNYDD.

wraig gweinidog. Braint o'r mwyaf i weinidog yw hyn; oblegid y mae ei ddefnyddioldeb yn ymddibynu i raddau mawr ar ei wraig. Os ydyw yn fenyw synwyrol ac hunanymwadol, mae ei dylanwad hi yn myned yn mhell iawn i feithrin tymherau cariadus yn mhlith yr aelodau. Mae yn mhob eglwys dlodion, ac yn fynych gleifion; ac ni ddylid eu hesgeuluso hwy. Pwy yn fwy addas i ymweled, a chydymdeimlo o leiaf, â'r tlodion yn eu caledi na chymhares yr hwn sydd o Sabboth i Sabboth yn egluro gair y bywyd ac yn cyfranu y bara a bery i fywyd tragywyddol? Os ydyw yn fenyw ddwys, a'i chalon tan ddylanwad ysbryd cariadus yr Iesu, nid oes neb a all ddangos mwy o dynerwch i'r claf, a'i sirioli dan ei gystudd, na hi. Medda y rhyw fenywaidd ddylanwad priodol iddi ei hun—dylanwad a ellir deimlo yn well na'i ddesgrifio. Mewn cynulleidfa y mae gwahanol dymherau, golygiadau, opiniynau, a galluoedd. Fel tànau y delyn, anhawdd yw eu cadw oll mewn hwyl. Os tynir un tant yn rhy dyn, bydd y lleill yn debyg o roddi allan sŵn annymunol. Mae medrusrwydd mawr yn ofynol i gadw y tànau oll mewn tôn. Felly hefyd y mae eglwys. I'w chadw yn fywiog, mewn yspryd gweithgar, mewn undeb ysprydol, ac yn awyddus i daenu egwyddorion y ffydd sydd waith yn gofyn medrusrwydd, callineb, hunanymwadiad, ac amynedd mwy na chyffredin. Pan fyddo y gweinidog yn gwneuthur ei orcu i gyflawni ei ddyledswydd mewn pob cydwybydolrwydd gerbron Duw, mae yn barod yn fynych i wangaloni, am nad yw yn gweled fod y ffrwyth yn cyfateb i'w lafur. At bwy y tröa am gydymdeimlad ac annogaeth ond at yr hon a ddewisodd i gyfranogi o'i lawenydd a'i dristwch? Pwy all ddal i fynu ei yspryd yn well na hi? Trysor anmhrisiadwy ydyw, os yn fenyw ddoeth, deimladwy, a duwiol! Os gwna gweinidog ieuanc gamsynied yn y dewisiad o wraig, mae yn gamsyniad a effeithia yn ddinystriol ar ei holl fywyd. Ni wnaeth Smalcius ddim o'r camsyniad hwn.

Oddeutu yr amser y priododd, cyflawnai y swydd o egwyddorwr *(catechist)* yn yr eglwys yn Smigel. Cymerai yr eglwysi Undodaidd yn Poland drafferth nid bychan i ddysgu egwyddorion crefydd i'w plant. Ystyrient yr ymddibynai ar hyn i raddau helaeth lwyddiant a pharhad eu heglwys. Yn wir, yr ŵyn yw gobaith y praidd. Nid oes un arwydd mwy sicr o ddirywiad eglwys na'i bod yn esgeuluso ei hieuenctid. Pwy ond hwy a ddysgwylir i lanw lle eu tadau a'u mamau yn y gynulleidfa? Ffol yw dysgwyl y glyna ein plant, yn enwedig ein plant ni, yr Undoddiaid, wrth ein hegwyddorion crefyddol os esgeuluswn eu hargraffu ar eu meddyliau yn amser eu hieuenctid. Nid o'n tu ni y mae cyfoeth a ffasiwn a dylanwad bydol; ac ar ol y pethau hyn yr â ein plant, os na chymerwn drafferth i greu serch ynddynt at y gwirionedd. Peth o'r pwys mwyaf yw fod eglwys yn egwyddori ei phlant. Yn nghyflawniad y gwaith pwysig hwn a dyledswyddau yr ysgol ddyddiol y gadawn Smalchius y tro hwn. Rhaid i ni ddychwelyd ato unwaith eto, oblegid y mae y pethau mwyaf pwysig yn ei fywyd heb eu hadrodd.

YR ANGEU DU.

Rhyfeddol yn ei ddechreuad, ei nodweddiadau, a'i ganlyniadau oedd yr haint mawr adnabyddus wrth yr enw Angeu Du, yr hwn a ysgubodd

ymaith hanner trigolion Lloegr yn y flwyddyn 1348. Y ddwy flynedd flaenorol bu yn ymdaenu yn raddol dros barthau deheuol Ewrop glefyd adwythig a ddygwyd o Asia, yr hwn a wnaeth ddifrod ar drigolion rhai o'r taleithiau mwyaf dymunol yn y byd. Dywed ysgrifenwyr mynachaidd cyfrifol oedd yn byw ar yr amser, fod y clefyd mor ddychrynllyd fel y darfu i lawer o'r Saraseniaid gredu ei fod yn arwydd o lid Duw o achos eu anghrediniaeth a dyfod yn Grist'nogion, hyd nes y gwelsant fod yr olaf yn marw fel hwythau; yna troisant yn ol i'r hen ffydd. Daeargrynfäau lawer a ddygwyddasant o ddeutu diwedd 1347, ac a ysgwydasant ddeheubarth Ewrop mor arswydus, nes oedd dynion yn llewygu gan ofn, ac yn gwneyd pob peth a allent i ddofi y llid dwyfol, ond glanhau budreddi eu trefydd a gollwng mwy o awyr iach i'w tai drewllyd. Ofer oedd eu gwaith yn ceisio dofi y llid nefol. Wedi i'r haint ysgubo Asia a'r Ymerodraeth Roegaidd, ymlusgai yn raddol, ond yn sicr, tua'r gorllewin. I bob golwg allanol nid oedd oerfel yr hîn na chyfryngwriaeth y môr yn cael un effaith arno. Mae Boccaccio yn rhagymadrodd ei "Decameron" yn rhoddi hanes anrhaith arswydus yr haint yn Florence mor ddarluniadol, fel nas gall neb a'i darllena byth ei anghofio. Yn mhen ychydig fisoedd wedi yr anrhaith yn Florence, ysgubodd dros yr Yspaen, Ffrainc, a Germani, yna croesodd y môr i Loegr.

O fis Mehefin hyd fis Tachwedd, 1348, bu gwlawogydd trymion yn yr ynys hon. Ni chafwyd braidd ddiwrnod sych trwy yr holl amser. Fel canlyniad, yr oedd y ddaear yn anarferol o laith, ac yn afiach, yn enwedig yn y trefydd lle nad oedd cwteri i gario ymaith y budreddi a ymgymysgent â'r dwfr. Yn mhen tipyn gwaddodai yn haen ddrewllyd ar wyneb y tir. Yn mis Awst y dygwyddodd y farwolaeth gyntaf o'r haint. Yn mis Tachwedd y cyrhaeddodd y brifddinas, ac oddiyno ymwasgarodd yn raddol trwy yr holl wlad, ac a ddifäodd y trigolion yn arswydus. Lladdodd mewn rhai manau naw o bob deg o'r trigolion! Nid gormodiaith ydyw hyn. Dywed Stowe, "Bu farw tyrfaoedd afrifed. Nid oes neb ond Duw ei hun a ŵyr pa rifedi." Rhwng y cyntaf o Ionawr a'r cyntaf o Fehefin, bu farw yn Norwich 57,104, ac yn Yarmouth yn ystod y flwyddyn 7,052. Bu y farwolaeth mewn trefydd ereill yn gyflawn gymaiut. Yn nhri erw ar ddeg Spittle Croft, lle mae yn awr y Charter House, claddwyd hanner can mil o'r haint! Eiddo un Syr Walter Manny oedd Spittle Croft, ac efe a'i rhoddodd i gladdu y meirw, am fod mynwentydd Llundain yn llawn.

Yr oedd yr haint yn gyflym yn ei weithrediad. Lladdai fynychaf mewn oddeutu chwech awr. Ychydig ddalient dri diwrnod. Rhwymau natur oeddynt megys yn ymddatod. Gadawai rhieni eu plant a phlant eu rhieni, i fyw neu farw, fel y dygwyddai, heb gymhorth. Gadewid y meirw mewn llawer man heb eu claddu. Anmhurai eu sawr yr awyr, yr hyn a roddai fywiogrwydd adnewyddol i'r haint. Lladdai yr haint, nid yn unig y trgolion, ond yr anifeiliaid hefyd. Ni chyffyrddai na chŵn nac adar ysglyfaethus â'r cyrff, am hyny drewent a phydrent ar y maesydd. Golygfa druenus ydoedd—cyrff dynion ac anifeiliaid yn y maesydd ac ar ochrau y ffyrdd! Dyoddefodd y siroedd dwyreiniol i'r fath raddau, fel y gellir canfod effaith yr haint y dydd heddyw. Trefydd ag oeddynt y pryd hwnw yn llawn o law-weithiau ydynt yn awr yn bentrefi tlawd. Eu heglwysi a fuont unwaith yn cael eu llanw âg addolwyr, ydynt yn awr yn llawer gormod o faint i'r ychydig drigolion sydd yn cyfaneddu y lle. Mae

yr eglwysi o hyd yn dystion o'r difrod erchyll a wnaeth yr haint yn y lle.

Yr oedd pob gwaith wedi sefyll. Y tir a dyfai yn wyllt, oblegid nid oedd dim dwylaw i weithio, na chwaith ddim calon gan yr hwsmon. Yr oedd llysoedd y gyfraith yn nghau, a'r senedd yn cael ei gohirio o amser i amser. Yn wir, yr oedd holl fasnach y wlad wedi darfod. Mor ddychrynllyd ydoedd yr haint fel y gwnai y Scotiaid ddefnydd o hono fel llŵ. *By the foul deth of the English* oedd yn eu geneuau yn gyffredin. Diangodd Scotland dros ychydig rhag yr haint; a phan oedd Lloegr yn nghanol ei chaledi, ymosododd y Scotiaid arni â byddin gyda bwriad i osod diwedd ar yr ychydig oeddynt wedi dianc rhag yr haint; ond pan oedd eu byddin wedi cyrhaeddyd Selkirk, daeth *foul deth of the English* i'w chanol, a lladdodd bum mil o honi mewn ychydig oriau! Wrth gwrs, dyna ddiwedd ar y gwaith oedd ganddynt mewn llaw. Dychwelodd y gweddill ar frys i'w cartrefydd, a *foul deth* yn eu canlyn, gan ysgwyd ei fflangell ac ysgyrnygu yn ddychrynllyd.

Gyda golwg ar yr achos o'r haint, yr oedd gwahanol feddyliau. Dywedai rhai mai effaith llid Duw ydoedd oherwydd afradlonrwydd a moethusder y rhyw wrywaidd. Barn ereill oedd mai gwisgoedd balch y menywod oedd yr achos, y rhai a addurnent eu personau yn fwy cyffelyb i'r dull presenol nag i Solomon a lili y maes. Pan yn dywedyd y peth hyn a'r peth arall gyda golwg ar yr achos, nid oedd neb yn meddwl am y gwir achos, sef tai drewllyd, o'r rhai y cauid allan awyr iach fel pe buasai wenwyn; trefydd digwteri; ystrydoedd culion, ac yn llawn llaid a budreddi, a diffyg awyr. Y pethau hyn sydd yn porthi heintiau. Yr oedd yr Angeu Du yn rhyfeddod yn ei effeithiau, ond nid yn ei achosion. O'r diwedd ymadawodd, gan addaw dychwelyd yn awr ac yn y man—addewid mae wedi gadw hyd y dydd heddyw. Pryd bynag y byddo dynion yn troseddu rheolau iechyd, y mae rhyw haint neu gilydd yn sicr o dòri allan ac ysgubo ymaith ryw nifer o'r trigolion. Atom ni yn yr oes hon mae yn dyfod dan yr enw *Cholera*, ac nid oes dim dros ddwy flynedd er pan y mae wedi ein gadael; ac ni wyddys pa mor gynted y tala ymweliad â ni eto. Gweision bach yr haint yw twymynon hefyd, yn enwedig y *typhus fever*. Mae hi yn wastad gerllaw lle byddo budreddi a mochyndra. Ceryddu tipyn mae y gweision yn absenoldeb eu meistr sydd yn cario y fflangell fawr. Un o honynt oedd y crŷd neu y deirthon; ond y mae hwn wedi ymadael bron yn hollol, oblegid mae rhenti uchel wedi gorfodi ar ddynion symud yr achos, sef i gwteru a llafurio mawndir a chorsydd. Pe byddai rhenti a thalmentoedd mawrion yn peri hefyd i ddynion gadw eu tai a'u cyrff yn lanach, byddai yn fendith fawr i'n gwlad; ond nid oes dim a wna hyn ond cynydd gwybodaeth a rhinwedd. Fynychaf, y dynion mwyaf anwybodus â difoes yw y dynion mwyaf mochynaidd. Mae gwybodaeth, rhinwedd, a glendid, yn gyfeillion anwahanadwy. Ond y mae yn bryd i ni roddi heibio yr ysgrifell. Cymaint â hyna am yr Angeu Du.

FFEITHIAU.

Yn ol yr Hen Destament Hebreaidd y mae 1656 o flynyddau o greadigaeth Adda hyd y diluw; nid oes ond 1307 yn ol y copi Samaritanaidd

o'r Pum-llyfr. Yn y cyfieithad Groegaidd o'r Hen Destament sydd yn myned dan yr enw "Y Deg-a-thriugain, darllenir mai 2242 sydd; ac yn ol yr hanesydd Iuddewig Josephus y mae 1556.

Eto, yn ol y copi Samaritanaidd, crëwyd y byd 4700 o flynyddau cyn Crist, ond yn ol y Deg-a-thriugain y rhif yw 5872. Dywedir yn y Talmud iddo gael ei greu 5344, a dywed ereill 3268 cyn Crist.

Ni wyddys yn iawn pa flwyddyn y ganwyd Crist. Y farn gyffredin yw iddo gael ei eni yn y drydedd flwyddyn a deugain o deyrnasiad Augustus Cæsar. A chyda golwg ar ei groeshoeliad, mae yn amhëus pa un ai yn y bymthegfed, yr unfed-ar-bymtheg, neu ynte yn y bedwaredd-ar-bymtheg o deyrnasiad yr Ymherawdwr Tiberius y dygwyddodd.

Mae gwahanol feddyliau hefyd yn nghylch parhad ei weinidogaeth gyhoeddus. Dywed rhai o'r tadau boreuol na pharhaodd ond blwyddyn. Yn yr hanesydd Eusebius darllenwn iddi barhau tair blynedd a hanner. Os felly, croeshoeliwyd ef yn y bedwaredd flwyddyn ar bymtheg o deyrnasiad Tiberius. Ychydig iawn o sylw a dalwyd i'r pwnc nes yn hir wedi amser Crist. Nid oedd dim amheuaeth ar feddyliau y Cristionogion cyntaf yn nghylch gweinidogaeth yr Iesu, na'r hyn a wnaeth ac a ddywedodd, nac ychwaith yn nghylch ei farwolaeth a'i adgyfodiad; ond am bethau o ail bwys nid oedd ganddynt amser i dalu sylw iddynt. Oes gweithio oedd eu hoes hwy, ac nid oes darllen ac ysgrifenu.

Y shekel Iuddewig, faint ydoedd? Mae yn debygol ei fod yn gyfartal i swllt a saith ceiniog o'n harian ni. Yr oedd tair mil o sheklau yn gwneyd talent o arian, yr hon a gynnwysai £342 3 9. Yr oedd talent o aur yn werth £5475. Y dernyn arian a gyfeirir ato yn fwyaf cyffredin yn y Testament Newydd yw y geiniog Rufeinig, a elwid *denarius*. Yr oedd yn werth oddeutu wyth ceiniog o'n harian ni yn bresenol.

Gwyn yw lliw plant yr Affricaniaid duaf pan eu genir. Maent yn duo yn raddol wrth bryfio.

Nid oes un creadur, ond y draenog a'r llyffant, wedi bod yn fwy o wrthddrych creulonder diachos na'r neidr yn ei gwahanol rywogaethau. Mae un-ar-ddeg o rywogaethau nadreddol yn ddiniwed, a phedair-ar-bymtheg yn wenwynig, y rhai ydynt er hyny yn fwy anaml. Y mae yn eithaf hawdd adnabod y gwahaniaeth rhwng y rhai gwenwynig a'r rhai diwenwyn. Un hollol ddiniwed yw y neidr ddiwenwyn. Y mae o ddwy i bum troedfedd o hŷd, o liw glasddu, a llinellau tywyll ar ei hŷd. Y gair Saesneg am dani yw *snake*. Nid oes yn ein iaith ni air sydd gyferbyniol iddo. *Neidr* yw pob rhywogaeth gyda ni. Mae y *snake* yn magu drwy ŵyau. Gellir gweled cannoedd o honynt weithiau mewn tomenau, lle eu dëorir gan wrês yr haul yn y gwanwyn. Pan fyddo y *snake* yn cael ei hymlid heb le i ffoi, chwytha yn debyg i giliogwydd. Am y neidr wenwynig, y gair Saesneg yw *viper*, yn Gymraeg *gwiber*. Mae o ddeuddeg i ddeunaw modfedd o hŷd—anfynych yn ddwy droedfedd. Mae ei phen yn *flat*, ac ar ddull triongl. Ei llygaid ydynt yn fywiog a dysglaer yr olwg. Ei lliw sydd fynychaf yn llwydgoch, a'i chynffon yn fain fel *whipcord*. Yn yr ên uwchaf mae dau ysgythrddant cam a blaenllym. Trwy y dant, o'r blaen i'r bôn, y mae twll main, braidd yn

weledig i'r llygad noeth. Dan bob dant y mae pledren fechan yn llawn o wlybwr melyn. Hwn yw y gwenwyn. Pan yn cnoi, gwasga'r dant ar y bledren, a sudda y gwlybwr gwenwynig drwy'r twll main i'r cnawd. Pan nad yw'r creadur yn ei ddefnyddio mae yr ysgythrddannedd yn gorwedd mewn math o wely pwrpasol i'w cynnwys yn yr ên. Nid yw'r wiber ddim yn dodwy, eithr hilia ei rhai bach yn fyw, y rhai pan mewn perygl a ruthrant i fol y fam am ddiogelwch(?). Mae ymlusgiad bychan arall, a elwir *madfall*, i'w ganfod yn fynych ar ochr cloddiau yn yr haf, ac mewn anialwch. Mae oddeutu deuddeg modfedd o hŷd, mwy neu lai, ac yn hollol ddiniwed.

Yn y gauaf yn ein gwlad ni mae pob math o ymlusgiaid yn marweiddio ac yn cysgu. Yn gynar yn y gwanwyn y maent yn dechreu bywhau, ac i'w canfod yn ngwyneb yr haul ganol dydd. Mae y *snake* yn bwrw ei chroen yn gyfan bob blwyddyn.

Dywedir fod St. Bride's Bay unwaith yn diriogaeth ffrwythlawn o Gymru, o dan yr enw "Gwaelod." Dywedir hefyd fod rhan o Sir Aberteifi, a fu unwaith yn boblogaidd, yn awr yn cael ei orchuddio gan y môr. Gelwid ef "Cantref y Gwaelod." A oes gwir yn y traddodiad fod llyn Pencareg yn awr yn sefyll lle yr oedd unwaith bentref, ac fod penau y simneiau i'w canfod gan y sawl sydd yn *slido* arno yn y gauaf? Deall y darllenydd ni yma.

Yr un peth ydyw y niwl â'r cwmwl. Pan y mae yn teithio yn uchel yn yr awyr gelwir ef yn gwmwl; ond pan yn nofio ar hyd wyneb y tir niwl ydyw. Ar dywydd trymaidd nid yw y cymylau dros hanner milldir yn uwch na'r ddaear; ar brydiau ereill, pan fyddo'r awyr yn gryf, maent yn llawer uwch.

Dywedir fod drysau y Groegiaid yn agor y tu allan, ac felly fod yn rhaid i'r hwn oedd yn ymadael â'r tŷ guro yn gyntaf y tu fewn, rhag agor y drws yn ngwyneb rhyw un a ddygwyddai fod y tu allan. Nid oedd gan yr hynafiaid *hinges* fel sydd genym ni, ond dau golyn yn troi mewn ceryg—un yn nghareg y trothwy a'r llall yn yr un uwchben.

Cynnwysai y lleng Rufeinig 6000 o filwyr pan fyddai yn gyflawn. Rhenid y lleng yn ddeg mintai, a phob mintai yn dri *maniple*, ac yn mhob *maniple* yr oedd dau can wr. *Canwriad* y gelwid arweinydd can milwr. Yn amser yr ymherawdwyr yr oedd y lleng fynychaf yn llai nag yn amser y weriniaeth. Un amser nid oedd yn cynnwys rhagor na 4200. Yr oedd gan bob lleng hefyd dri chant o wyr meirch. Nid oedd gan y Groegiaid na'r Rhufeiniaid fyddin sefydlog yn amser heddwch. Yn amser rhyfel yr oedd pob dinasydd yn filwr; ond yr oedd y Rhufeiniaid mewn rhyfel yn rhyw le fynychaf. Heb ryfel nid oedd y genedl hòno ddim wrth ei bodd, fel rhai dynion, byth wrth eu bodd ond pan yn cwympo allan ac yn ymgynhenu â'u cymydogion.

Galwai yr hen Gymry y lleng Rufeinig *lleon*. Mae i'w glywed fynychaf mewn cysylltiad â'r gair Caer, megys Caer*lleon*, oddiwrth y ffaith fod y lleng wedi bod yn dàl meddiant o'r lle.

DAMMEG.

Yr Offeiriad Uniawn-gred, y Dyn Claf, a'r Caffaelwr Gwirionedd gwthgrediniol.

Dygwyddodd, pan oedd rhyw grefftwr wedi teithio llawer o ddyddiau, iddo wanychu o eisieu lluniaeth; a phan nad oedd yn alluog i deithio yn mhellach, efe a eisteddodd i lawr ar gareg i orphwys ei aelodau blinedig, ac i olchi ei draed oeddynt yn flin gan y daith, pan, Och! y pallodd ei nerth iddo, ac y treiglodd dros glogwyn serth i ffôs wrth ei odre. Oddeutu yr amser hwn, Caffaelwr Gwirionedd, dinasydd o'r wlad hòno, a ddaeth yr un ffordd, a welodd y dyn yn y ffôs, ac a dosturiodd wrtho. Rhedodd ato, a chododd ei wyneb o'r llaid. Trwy hyny Josiah—canys dyna oedd ei enw—a achubwyd rhag mygu. "Pa beth a wnaf yn awr?" meddai Caffaelwr Gwirionedd; "nid allaf fy hunan ddwyn y dyn hwn i ddiogelwch. Yr wyf yn gweled ei fod yn drwm iawn, ac nid oes neb i'm cynorthwyo yn y lle unig hwn." Felly, efe a ddaliodd Josiah i fynu, mewn gobaith y byddai i rywun ddyfod y ffordd hòno a'i gynorthwyo i waredu y dyn claf o'i gyflwr truenus.

Ar hyn daeth Offeiriad parchedig y ffordd hòno yn ei gerbyd, a Chaffaelwr Gwirionedd, yn flinedig wrth ddal y dyn claf i fynu, a waeddodd yn uchel am gynorthwy. Felly, cerbyd yr Offeiriad a arosodd, a'r Offeiriad a ddisgynodd o hono, ac a ddaeth at y fan lle yr oedd y dyn claf yn gorwedd. Yn awr, Caffaelwr Gwirionedd a adroddodd yr hanes wrth yr Offeiriad, pa fodd y cafodd Josiah wedi syrthio i'r ffôs; ac hefyd, ei fod yntau yn flinedig wrth ddal y baich ei hunan. Ymbiliodd, gan hyny, ar yr Offeiriad i roddi un llaw yn gadarn wrth un ochr i'r dyn claf, fel y gallent eu dau ei symud ef i dŷ meddygol. Ar hyn, yr Offeiriad a dynodd allan ei yspectol aur, ac a edrychodd i lawr ar Caffaelwr Gwirionedd; yna efe a atebodd ac a ddywedodd,—

"Yr wyf yn meddwl fy mod wedi dy weled di o'r blaen. Ai nid Caffaelwr Gwironedd yw dy enw di? A ysgrifenaist di ddim llyfr, yr hwn a gefais yn gwahaniaethu oddiwrth erthyglau fy ffydd i? Ai nid ti a welais drwy ffenestr fy ngherbyd yn annerch fy mhlwyfolion yn nghylch dirwest ar y Sabboth santaidd? Ai nid ti yw y Caffaelwr Gwirionedd hwnw?" "Felly y mae yn wir," atebai Caffaelwr Gwirionedd; "er hyny, ni omedd Offeiriad gynorthwyo teithiwr tlawd, claf, yr hwn sydd wedi syrthio i ffôs."

"Och fi!" meddai yr Offeiriad, "ond nid allaf gymeryd un rhan gyda hereticiaid. Yr wyf yn tosturio yn wirioneddol wrth y dyn, y teithiwr claf, ac a'i gwaredwn yn ewyllysgar o'i gyflwr truenus, pe mewn cymdeithas gwir grediniwr; ond nid allaf gymdeithasu âg anffyddwyr. Oni wyddost ti, Caffaelwr Gwirionedd, pan unwaith y daw Josiah, fel yr wyt yn ei alw, allan o'r ffôs yna, y gwna yn sicr dy ganlyn di, ac addoli yn dy deml di ar fynydd Gerizim, lle ni ddylai neb addoli."

Yna yr Offeiriad a drôdd ymaith, a ddringodd i'w gerbyd, ac a aeth i'w ffordd allan o'r golwg. Yn awr, yr oedd Caffaelwr Gwirionedd yn gofidio yn dost iawn oherwydd ymddygiad yr Offeiriad; ond arosodd yn ffyddlawn gyda'r dyn claf nes i un o'r enw Siaced Ffwstian ddyfod i fynu ato, a hwy a'i cymerasant ef i dŷ meddygol, ac a gysurasant eu brawd yn ei gystudd. Yn mhen yspaid o amser, yr Offeiriad a ddychwelodd yn ei ol yr un ffordd ag yr aeth; ac am ei bod yn awr yn

awr yn dywyll iawn fel na welai ddim o'i flaen, ei gerbyd a darawodd wrth y gareg ar yr hon yr eisteddai y dyn claf, pan, Och! y taflwyd ef i'r ffôs yn yr hon y cafwyd Josiah. Cafodd ei niweidio yn fawr gan y codwm. Oddeutu yr amser hwn yr oedd Caffaelwr Gwirionedd yn dychwelyd yn ei ol wedi bod yn cysuro y dyn claf, pan gafodd yr Offeiriad yn y llaid. Efe a frysiodd i'w gynorthwyo, ac ni fynai ei adael nes iddo gael ei ddwyn yn ddiogel i'w balas, oherwydd yr oedd ei gerbyd wedi tòri.

Tranoeth, yr Offeiriad a ddechreuodd ystyried beth oedd wedi cael ei wneyd, a'i feddyliau oeddynt drallodus. Yna Rebecca ei wraig a ddaeth yn hyspys o'i ofid, ac a gymhellodd ei hanwylyd i adrodd iddi yr oll am y dyn claf. Yn awr, yr oedd calon Rebecca yn drist iawn, a hi a ddywedodd, "Yr wyf yn canfod bod fy anwylyd wedi cyfeiliorni yr un waith hon, am na ddangosodd dosturi at y tlawd."

Nage, meddai ei hanwylyd yr Offeiriad, nid yn hyny yn unig yr wyf wedi troseddu; yn hytrach yn hyn, i mi ddyfod yn farnwr meddyliau drwg. Mi a gondemniais frawd, calon yr hwn ni allwn ddarllen. Mi a roddais ergyd i ryddid cydwybod, ac a gollais gyfleustra gwerthfawr i wneyd daioni. Gallaf fod wedi achosi i lawer gablu, a bod yr Arglwydd yn awr yn ei lid yn ceryddu ei was.

Ei wraig Rebecca oedd wedi ei chyffroi yn ddirfawr. Hi a ddywedodd wrth ei gwr, "Gall mai felly y mae; er hyny gadewch i ni ymostwng ein hunain ger bron yr Arglwydd, fel yr atalier ei lid, a ni a anfonwn am y dyn, Caffaelwr Gwirionedd, yr hwn a ddychwelodd genyt ti i'th dŷ. Mae yn bosibl nad yw ei feddwl wedi ei osod yn dy erbyn di, canys yr wyf wedi clywed ei fod yn cymeryd hyfrydwch mewn traethu geiriau o ddyddanwch i'r cystuddiedig." Felly y genad a aeth i'w ffordd, ac a gafodd Caffaelwr Gwirionedd, yr hwn oedd wedi dychwelyd drachefn i weled Josiah i'r tŷ meddygol.

A phan welodd yr Offeiriad Caffaelwr Gwirionedd, yr oedd ei galon yn llawen; ac efe a lefarodd wrtho eiriau hynaws. Nid oedd eu hysprydoedd chwaith yn dyeithrio y naill oddiwrth y llall. Ar ol iddynt siarad am lawer o bethau, nes i'w calonau losgi o gariad santaidd, hwy a ymgrymasant yn nghyd, ac yn nghyd yr wylasant ac yr offrymasant eu diolchgarwch i'r un Tad cyffredinol yn y nef. A phan gyfodasant o'u haddoliad, Rebecca a holodd yn fanol am y dyn claf, a rhoddodd i Gaffaelwr Gwirionedd gan ceiniog, gan ddywedyd, "Cymer di y rhai hyn, a dyro hwynt i'r dyn claf tlawd, yr hwn a lewygodd yn y ffôs, a pha beth bynag yn rhagor sydd arno angen, tyred ataf fi ac efe a'i caiff; a'r Arglwydd a fendithio Josiah a tithau hefyd." Felly Caffaelwr Gwirionedd a ymadawodd o dŷ yr Offeiriad, yn rhyfeddu yndo ei hun pa fodd y daeth y pethau hyn oddiamgylch, ac a lawenychodd yn fawr am na lefarodd yn draws wrth yr Offeiriad pan omeddodd gynorthwyo y dyn claf allan o'r ffôs, ond bwrw ei ffordd ar yr *Arglwydd*, yr hwn sydd yn peri i oleuni ddysgleirio allan o dywyllwch. Ac fel yr oedd Caffaelwr Gwirionedd yn cerdded ar hyd y ffordd, a'i angel ymgeleddawl yn sibrwd yn ei glust, "Oni weli di, Caffaelwr Gwirionedd, fel y mae cariad yn gorchfygu pob peth! Cariad a orchfyga eneidiau i ba rai ni all rhesymau gael derbyniad. Mae i gariad dafod mwy galluog na doeth-barabl. Cariad sydd hollalluog. 'Duw cariad yw.'"

G. L.

DAEARYDDIAETH PALESTINA.

Pennod xi.—Trefydd Galilea.

1. *Dan.*—Galwasid y dref hon yn yr hen amser Laish. Safai yn y parth gogleddol o'r dalaeth gerllaw tarddiad yr Iorddonen. Anfonodd y Daniaid fintai o filwyr tua'r gogledd, pan oedd eu tiriogaeth eu hunain wedi myned yn rhy fach iddynt, a chymerasant Laish, a newidiasant ei henw i Dan. Yma y gosododd Jeroboam, fab Nebat, i fynu un o'r lloi aur, i gael ei addoli gan ei bobl. "O Beerseba hyd Dan" oedd ymadrodd a ddynodai hyd holl wlad yr addewid. 1 Chron. xxi. 2.

2. *Capernaum.*—Yr oedd y dref hon yn gorwedd o du y gogledd-orllewin i fôr Galilea, ar gyffiniau Zabulun a Naphthali. Buasai ein Hiachawdwr yn aros yma yn aml gwedi dechreuad ei weinidogaeth gyhoeddus: felly geilw St. Matthew hi "ei ddinas ei hun." Yr oedd yn dysgu yn aml yn ei synagog fel un âg awdurdod ganddo. Yma cyflawnodd hefyd lawer o'i weithredoedd nerthol—iachâu mam gwraig Pedr, yr hon oedd yn gorwedd yn glaf o'r crŷd (Matt. viii. 14)—dwyn i fywyd ferch Jairus, penaeth y synagog (Marc v. 22)—iachâu gwas y canwriad, yr hwn oedd glaf o'r parlys (Matt. viii. 5)—dwyn i fywyd fab y pendefig hwnw a ddaeth ato i ymbil arno am wneuthur hyny (Ioan iv. 46.) Dyma lle y trigai Levi, yr hwn a ddewisodd Crist i fod yn un o'r deuddeg Apostol (Matt. ix. 9; Marc ii. 14.)

Ni ddarfu pobl y ddinas hon wneuthur y goreu o addysgiadau a gweithredoedd nerthol yr Iesu; felly y dywed fod Capernaum wedi cael ei dyrchafu hyd y nefoedd, ond a dynir i lawr hyd yn uffern. Matt. xi. 23. Cyflawnwyd y brophwydoliaeth hon, oblegid ni wyddys yn iawn yn awr pa le mae'r fan lle y safai y ddinas. Mae un Dr. Robinson yn meddwl mai adfeilion a elwir Khân Minyeh yw'r fan lle y safai.

3. *Bethsaida.*—Gorweddai hon ar arfordir môr Tiberias, heb fod yn mhell o Capernaum. Gelwir hi yn gyffredin Bethsaida Galilea, er ei gwahaniaethu oddiwrth un arall ag oedd yn gorwedd o du'r gogledd-ddwyrain i fôr Tiberias. Yn y pentref hwn ganwyd yr Apostolion Philip, Pedr, Andrew, ac Iago, mab Zebedeus, a Ioan ei frawd. Ioan i. 44; Matt. iv. 21. Mae'r brophwydoliaeth "Gwae di Bethsaida" wedi cael ei chyflawni: mae ei henw wedi darfod, ac nid oes neb yn alluog i ddyweyd pa le y safai unwaith.

4. *Chorazin.*—Mae hon fel y blaenaf, a'i lle yn anadnabyddus.

5. *Tiberias.*—Gorwedda hon ar y làn orllewinol i fôr Tiberias. Sylfaenwyd hi gan Herod Antipas, *Tetrarch* Galilea, a rhoddodd iddi yr enw Tiberias er mwyn yr Ymherawdwr Tiberius, ei gyfaill. Unwaith y sonir am dani yn y Testament Newydd (Ioan vi. 23); er i'n Hiachawdwr fyw gryn lawer yn y gymydogaeth, nid ydym yn cael ei fod wedi myned tu fewn i'w muriau. Yn amser y rhyfel rhwng y Rhufeiniaid a'r Iuddewon, pan dynesodd Vespasian at y ddinas, daeth y prif ddinaswyr allan i'w gyfarfod, i ymbil arno am beidio eu dinystrio, gan eu bod bob amser wedi bod yn ufudd iddynt. Caniatäwyd hyn, a boreu dranoeth efe arweiniodd ei filwyr i mewn; a'r dinasyddion, wedi agor iddo'r pyrth, a'u cyfarfuasant ef yn llawen, gan ei alw yn achubydd a chymwynaswr.

Gwedi dinystr Jerusalem daeth yn enwog fel eisteddle dysgeidiaeth Iuddewaidd. Yr oedd yma goleg llewyrchus. Ac y mae yma eto goleg

Rabbinaidd. Gelwir y ddinas yn awr *Tabaria*, ac y mae yn un o ddinasoedd santaidd yr Iuddewon. Ei phoblogaeth ryw 4,000, o ba rai y rhifa'r Iuddewon oddeutu 1,000. Dywedir mai golwg wael sydd ar y dref, tlawd, a bawlyd iawn. Ychydig yw'r boblogaeth Gristionogol; ond yn amser rhyfeloedd y groes yr oedd yma esgob. Gorchfygwyd y fyddin Gristionogol yn y gymydogaeth hon, yn y flwyddyn 1187, gan Saladin, arweinydd enwog y Saraseniaid.

6. *Cana Galilea.*—Gelwid y pentref wrth yr enw hwn i'w wahaniaethu oddiwrth le o'r un enw. Mae yn enwog am mai yma y cyflawnodd Crist ei wyrth gyntaf, sef troi y dwfr yn wîn (Ioan ii. 1); ac fel lle genedigol Nathaniel, yr Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oedd dwyll. (Ioan i. 47, a xxi. 2.) Yn Cana cyflawnodd Iesu hefyd ei ail wyrth, pan yn dychwelyd o Judea i Galilea. Yma y deisyfodd y pendefig o Capernaum arno i iachâu ei fab, yr hyn a wnaeth. (Ioan iv. 46—54).

Ymddengys fod Cana wedi ei hadeilalu ar le uwch na Chapernaum, oblegid yr ydym yn cael fod y pendefig wedi dyweyd, "O Arglwydd, tyred i wared cyn marw fy machgen." Meddylir yn awr mai'r adfeilion a elwir Kâna-el-Jelil, ar fryn i'r gogledd-ddwyrain o Nazareth, yw'r gwir fan lle safai hen Gana Galilea.

Y TADAU, PA LE Y MAENT HWY?

B'le mae'r tadau fu'n llafurio
Meusydd Cymru'r dyddiau gynt,
Ac yn traethu 'u hegwyddorion,
Pan yn teithio ar eu hynt,
Hyd ein bryniau a'n dyffrynoedd,
A'u mynwesau'n fyw o dân,
Er ffrwythloni a phureiddio
Gardd dynoliaeth Cymru lân?

Hen apostol Gellionen
Gynt lefarai gyda nerth,
Pan yn ngrym ei weinidogaeth,
Wirioneddau mawr eu gwerth;
'Rhei'ny o'i fewn yn berwi 'i fynwes,
Gan yspryd byw tuag at ei waith,
Ond daeth angeu a'i cymerodd
I orwedd yn y ddaear laith!

Lloyd, Caerfyrddin, gyda hyny,
A'i ddeniadol eiriau mwyn,
Cariad oedd yn berwi 'i fynwes;
Dan ei anorchfygol sŵyn
Yr ymdoddai'r gynulleidfa,
Gan ei deimlad cynhes, clyd,
Ond malurio wnaeth ei babell,
Gorwedd mae'n ei wely pridd.

Coedycymer, nid y lleiaf
Ei manteision fuost ti;
Cefaist un o'r dynion mwyaf
Droediodd ddaear Cymru gu;
Treiddia mewn i bob gwybodaeth
Gyda phenderfyniad clir,
Myn'd yn mlaen nes llwyr orchfygu
Wnai ein gwron ar bob tir.

Pynciau dyrys duwinyddiaeth
Daflai i oleuni dydd,
Rhai fu'n llechu drwy yr oesau
O dan fantell credo'n nghudd ;
Egwyddorion pur yr Iesu
Oedd ei dduwinyddiaeth glyd,
Ac ar hon bu'n ymorphwyso
Tra'n ymdeithio yn y byd.

Rhan o yspryd byw y dewrion
Fu'n cynhyrfu ein hoff wlad,
A ddisgyno eto'n helaeth
Ar ieuenctid Cymru fâd,
Nes y byddo eu calonau
Yn ymferwi yn eu gwaith,
A'u meddyliau'n esmwyth huno
Pan gyrhaeddont ben eu taith.

Ac yna cânt dderbyniad
Croesawgar gan eu Tad,
I mewn i etifeddu
Y baradwysaidd wlad ;
A gwledda yn ddiderfyn
Ar gariad pur yr Iôr,
Yr hwn heb drai na llanw
Sy'n anmhlymiadwy fôr.

GWYNLAS DOWLAIS.

PRYDLONDEB.

(*Buddugol yn Nghyfarfod Cystadleuol Craigtrebanos, Chwefror* 6*ed*, 1869.)

Mae'r haul têr yn codi yn brydlawn o hyd,
Ond codi'n anmhrydlawn wna haner y byd ;
Ni chollodd y wen-loer un fynyd erioed,
Prydlondeb fel cyfraith i'r crëad a roed.
Uwch blodau'r werdd faenol, rhwng cangau'r lâs wîg,
Rho'i cerdd ar brydlondeb wna'r gôg o bêr bîg ;
Y gwanwyn â'i wenau, a thônau'r môr maith,
A'r sêr ar brydlondeb bregethant eu hiaith.

Arafa olwynion cymdeithas yn rhwydd,
O ddiffyg prydlondeb mewn dynion o swydd ;
Lle bo fe'i nodweddir yn wastad â threfn ;
Ei llaw ddarpar ymborth a gwisg am y cefn :
Yn brydlawn daeth Iesu i achub y byd.
Ddynoliaeth ! tro ato am fywyd mewn pryd ;
Prydlondeb ! boed imi gydsynio â'th gais,
A dianc o ddistryw wrth archiad dy lais.

Mor chwith yw'r arferiad gan lu yn ein gwlad,
O dd'od yn ddiweddar i gyntedd Iôr mâd ;
Y weddi, y bregeth, a'r Ysgol Sul gawn
Gan swn traed anmhrydlon yn colli eu dawn.
Mae'r senedd a'r capel a'r gyngherdd o hyd,
O ddiffyg prydlondeb yn destyn gwawd byd.
I'r cwrdd, i'r eisteddfod, a'r angladd, ynghyd
A'r geiniog ddarllenfa, O cyrchwn mewn pryd.

ALAW LLYNFELL.

LLINELLAU

Ar Farwolaeth Evan Owen, o'r Felin-fach, ger Ystrad, Ceredigion, yr hwn a gafodd ei ladd trwy ddamwain ar Incline Dowlais, Chwefror 27ain, yn 82 oed. Gwel YR YMOFYNYDD *am Mai,* 1869.

Erch angeu sydd yn llechu'n nghudd,
O olwg dyn mewn dirgel fanau ;
Gan wylio'n ddyfal nos a dydd
Am le i ollwng marwol saethau.

Yn ddirgel rhoddodd finiog saeth,
Ar fwa damwain flin, aflawen ;
A chyda nerth ei gollwng wnaeth,
Drwy galon bywyd EVAN OWEN.

I ben dirwynwyd oriau'r oes ;
A'r ergyd olaf roddodd awrlais
Ei fywyd oedd mewn ingawl loes
Wrth drengu yn nghym'dogaeth Dowlais.

O Geredigion daeth am dro,
I wel'd ei anwyl berthynasau ;
Ond cyn dychwelyd, rhoddwyd clô
Gan angeu ar ei holl aelodau.

Y peraidd lais a'r tafod ffraeth
Fu'n canu gynt fel udgorn arian,
Sy'n awr yn ddystaw, ac yn gaeth,
O fewn carchardy oer y graian.

Yr oedd ei golli'n ergyd trwm
I ëang gylch ei gydnabyddiaeth ;
Ac hiraeth sang, â'i wadnau plwm,
Ar fron ei deulu yn eu galaeth.

Cysegru 'i fywyd wnaeth yn llwyr
I rodio llwybrau moes a rhinwedd ;
A'i haul fachludodd yn yr hwyr
Dros glogwyn amser mewn hynawsedd.

Oes hir—dros bedwar ugain mlwydd—
A dreuliodd ef mewn defnyddioldeb ;
Ac ar ei therfyn aeth o'n gŵydd,
I fedi'r ffrwyth am drag'wyddoldeb.

Y DYN HUNANOL.

Yn mhob gwedd, un anweddaidd—eithaf
Rhagrithiol a bawaidd ;
Engyl a'u swyn, brwyn y'nt braidd ;
Yn ei fesur anfoesaidd.

Ei bleser ydyw hèrio—na welwyd
Ei ail ef am weithio ;
Ond 'rhoswch, gwyliwch goelio
Anwir iaith ei araith o.

Un chwanog i lid a chynen—ydyw,
'Rwy'n adwaen ei elfen ;
Noda ei sur ynfyd sèn
Ei ogwydd at genfigen.

Doeth iesin gymdeithasau—adwaenir
O dan ei ddyrnodiau ;
Sâl ydynt ei sylwadau
Oll i gyd, llawn twyll a gau.

Trwstan anniddan iawn yw—heb synwyr,
Absenau'n ddigyfryw ;
A gwrthun adyn ydyw,
Estron balch ar ystryw'n byw.

Trwy ei oes un anfoesol—y gwelir
Y dyn gwael hunanol ;
Ei ystum yn orchestol,
Llechwraidd, ffiaidd, a ffol.—C. Ayron.

I FLODEUYN Y GLASWELLTYN.

[buddugol.]

Glwys ei wallt yw'r Glaswelltyn;—ni welir
Anwylach blodeuyn ;
Ond â'i holl wenau dillyn
Try yn lludw—mae'n ddelw o ddyn.

Ei wawr deg ar haner dydd—yn ddilys
Sydd olwg ysplenydd ;
Ond wele ! efe ni fydd,
Na'i harddwch yn yr hwyrddydd !—Dewi Hefin.

IARLL DERBY.

Mae rhywbeth yn drist yn nghwympad hên dderwen sydd wedi oesi am ganrifoedd. Miloedd o weithiau ffiachiodd y fellten chwyrn rhwng ei changhenau yn hollol ddieffaith. Miloedd o weithiau curodd y gwynt arni, plygai; a dyna i gyd. Gyda gwreiddiau diysgog, mor hyf a chyndyn â'r boncyff a'i cynhaliai, hèriai yr hen dderwen y corwyntoedd ffyrnicaf, ac anerchai y tês balmaidd ar ol ystormydd ofnadwy. Ond ryw noswaith, dyma Dadfeiliad, merch Amser, yn dechreu cwblhau y gwaith oedd wedi ei hir gychwyn, trwy sugno ymaith bob gronyn o'i nherth, ac yn y boreu gwelir yr hen dderwen hir-hoedlog ar ei gorwedd, wedi dadwreiddio, a'i changhenau yn chwilfriw gan y cwymp, Dyma ddarfod am dani. Cenhedlaeth ar ol cenhedlaeth sydd wedi gwylied ei thyfiant pwyllog. Llawer chwedl a thraddodiad sydd yn nglŷn â hi, ac wedi ei gwneyd i lawer rywbeth yn fwy na phren—yn hanesyddiaeth : tafod pe cawsai, cyffrous a dyddorol a fuasai ei hanes o'r hyn a gymerodd le dan gysgod ei changhenau llathraidd. Clywir pawb yn galaru syrthiad yr hen dderwen. Canfyddir ei lle yn wâg am oesau. Nid oes modd ei lanw i fynu.

Mae marwolaeth gwleidyddwr a blaenor plaid o enwogrwydd Iarll Derby, yn ddygwyddiad nas gall un dyn diragfarn, beth bynag fo ei olygiadau gwleidyddol, lai na'i alaru. Ni wna angeu yr un gwhaniaeth rhwng gradd, âch, na chredo : pan angeu a ddaw, y mae yn naturiol ac yn ddyledswydd ar bawb anghofio pa un ai i'r blaid hon neu i'r blaid arall y perthyna y marw, a dangos eu bod yn meddu ar alluoedd i werthfawrogi talent, dysg, ac hyawdledd, er yn tarddu o ffynon hollol groes i'w syniadau hwy. Nid oedd marwolaeth y pendefig urddasol yn beth

annisgwyliadwy, mae'n wir, gan ei fod wedi cyrhaedd ei 71 mlwydd, ieuengach o ddeng mlwydd na Palmerston, ac o saith na'r hen batriarch Russel; er yn llawn o ddyddiau, wedi gweled ei dringain a deg, cyfartalwch oedran yr hil ddynol yn ol yr ysgrythyrau, eto, mae ei ddiflaniad o'n plith wedi peri syndod a galar i bawb o'i gydgenedl, ac wedi achosi bwlch na lenwir i fynu byth, dichon. Efe oedd asgwrn cefn *poor* Diz. Rhyw aderyn naill-aden fydd Diz. mwyach. Ganwyd Edward Geoffrey Smith Stanley, Iarll Derby, yn mhlâs Knowsley, Mawrth y 29ain, 1799, ac anadlodd ei olaf yn dawel a digyffro ar foreu Sabboth, Hydref 24ain, 1869. Derbyniodd ei addysg foreuol, a hòno y goreu allasai neb obeithio ei chael, yn Eton a *Christ Church College*, Rhydychain, lle y dysgleiriodd trwy ennill y "Chancellor's Prize" yn Lladin. Y pryd hyn daliai yr un golygiadau gwleidyddol â'i dad, ymrestrai ei hun dan y faner Whigaidd. Yn 1821 dechreuodd ei yrfa seneddol fel cynrychiolydd bwrdeisdref fechan Stockbridge. Yn mhen tair blynedd traddododd ei *maiden speech*. Er nad oedd hon ond ar ryw faterion lleol, eto mae'n debyg i lawer gwreichionen o'r tân areithyddol a'i hynododdd mewn amser diweddarach ymddangos ynddi; cawn hyn ar awdurdod Syr James Mackintosh, yr hwn sydd yn feirniad craffus o areithyddiaeth seneddol. Yn 1824 traddododd ei ail araeth, y tro hwn o blaid yr Eglwys Sefydledig yn yr Iwerddon, ac hyd ei fedd gwrthwynebodd yn gyndyn yr hyn a gyflawnwyd yn ogoneddus gan Mr. Gladstone a'i bleidwyr yn y seneddymhor diweddaf. Yr oedd yn amddiffynwr cadarn i'r mesur Diwygiadol yn 1832, ac erbyn hyn yr oedd ei alluoedd areithyddol digyffelyb wedi eu dadblygu yn gyflawn. Nid oedd dim a allasai wrthsefyll ei hyawdledd; safai yn un o'r blaenaf yn mysg siaradwyr cyhoeddus y byd. Yn mysg y mesurau y cymerodd ran ynddynt tra'n Whig, cawn y "Church Temporalities Bill," 1833; a mesur i ryddhau y caethion yn yr India Orllewinol. Cawn ef yn 1834 yn troi ei gefn ar ei hen gyfeillion y Whigs, ac yn uno â'r Toriaid; o hyny hyd awr ei farwolaeth tueddai ei feddwl i ryw hafan gulach a mwy Toriaidd ddydd ar ol dydd. Yn 1845 dyrchafwyd ef i Dŷ'r Arglwyddi; saith mlynedd yn ddiweddarach gwnaed ef yn brif-weinidog am y waith gyntaf. Yn ystod y weinyddiaeth hon cariodd fesur o "Chancery Reform," a'r "Militia Bill." Ni pharhaodd mewn swydd yn hir. Ar ol etholiad cyffredinol 1852, gorchfygwyd *financial scheme* Mr. Disraeli, ac ymneillduodd Derby o'i swydd. Ar orchfygiad gweinyddiaeth Palmerston yn 1858, yn nghylch materion perthynol i China, galwyd ar Derby eilwaith i gymeryd awenau y llywodraeth yn ei law. Gwnaeth felly, ac yn 1860 dygodd allan fesur diwygiadol, yr hwn a orchfygwyd ar yr ail ddarlleniad; ar hyn apeliodd at y wlad, ond y canlyniad fu iddo orfod encilio o'i swydd. Mae helyntion ei weinyddiaeth ar orchfygiad y Russel-Gladstone Reform Bill yn ffres yn nghôf y darllenwyr, fel nad oes angen eu cofnodi yn bresenol. Oddiar hyny ni chymerodd fawr o ran yn y *debates*, gyda'r eithriad o'r araeth byth-gofiadwy hòno yn erbyn yr "Irish Church Bill." Naid yn y tywyllwch oedd y mesur Diwygiadol 1867, meddai ef. Y tacraf o'r Toriaid oedd; ond os oedd ei olygiadau yn gûl a chrabachlyd, y mae yn ddiamheu fod y gydwybod yn trefnu mai felly oeddynt i fod. Meddai galon haelionus, ond hanai o waed rhy uchel ac urddasol i fedru cydymdeimlo â'r tlawd. Gadawn ef yn awr yn mynwent Knowsley i gydorwedd â'i dalentau dysglaer, a chan ddymuno o'm calon heddwch i'w lwch.—Waeth Pwy.

PRIODASAU.

Hydref 22ain, yn Nghapel y Cribyn, gan y Parch. R. Jones, yn mhresenoldeb Mr. Griffiths, y Cofrestrydd, James Evans â Mary Evans, y ddau o'r Cribyn.

Hydref 29ain, yn Nghapel-y-groes, o flaen David Daniel, Cofrestrydd, David Daniel, Clynyrhelyg, Llanwenog, ac Anne Jenkins, Llechwedd-deri uchaf, Llanwnen.

Tachwedd 13eg, yn eglwys blwyfol Ciliau Aeron, David Jones, Blaenyberllan, ac Eleanor Williams, Parkybedw, Ciliau.

Tachwedd 16eg, yn Alltyplacca, o flaen David Daniel, Cofrestrydd, David Davies, Pwllybilwg-fach, Llanwenog, ac Elizabeth Jenkins, Ffinnant Cottage, Llanwenog.

Tachwedd 17eg, yn Nghapel-y-groes, o flaen David Daniel, Cofrestrydd, David Davies, Commins, Llanbedr, a Mary Davies, Royal Oak Hotel, Llanbedr.

MARWOLAETHAU.

Awst 13eg, yn 32 mlwydd oed, o'r *consumption*, John Harries, Pentrerhys, ger Llanwnen. Claddwyd ef yr 17eg canlynol yn Capel-y-groes, pryd y cyflawnwyd y gwasanaeth angladdol gan y Parch. T. Thomas, gweinidog y lle. Saer ydoedd y cyfaill trengedig, a threuliodd y blynyddoedd olaf o'i fywyd yn Abertawe, lle y perchid ef yn fawr gan bawb a'i hadwaenai, fel dyn ieuanc sobr, diwyd, a diddichell. Yr oedd yn Undodwr selog, ac yn cyrchu i gapel Mr. Higginson tra y bu yn Abertawe. Yr oedd yn un o gyfeillion gwresocaf YR YMOFYNYDD, a gwnaeth a allai drosto. Bydded i gyfeillion a chyfoedion yr ymadawedig ymdrechu efelychu ei gymeriad rhinweddol ef, ac na alared ei berthynasau ar ei ol fel rhai heb obaith ganddynt.

Hydref 15fed, wedi cyraedd mwy na dyddiau yr addewid, yn 84 mlwydd oed, Mary Davies, (Mallen Tynewydd,) yn Hendy'r Neuadd, ger Llanwnen. Daeth torf fawr i'w hangladd y Llun canlynol, a chladdwyd hi yn mynwent Capel-y-groes, lle yr oedd ugeiniau lawer o'i hen gyfeillion wedi ei blaenu er ys blynyddoedd meithion. Pregethodd y Parch. T. Thomas ar yr achlysur, oddiwrth Psalm xxvii. 1. "Yr Arglwydd yw fy ngoleuni a'm iachawdwriaeth; rhag pwy yr ofnaf? Yr Arglwydd yw nerth fy mywyd; rhag pwy y dychrynaf?" Mae'n debyg fod yr hen wraig yn ei gofid (a chyfarfu â llawer o ofidiau ar ei thaith trwy'r byd) yn arferol o adrodd yr adnod uchod, ac yn derbyn llawer o gysur a chymhorth oddiwrthi. Yr oedd yr hen chwaer ymadawedig yn un o'r rhai mwyaf synwyrlym a chraffus ei meddwl yn y gymydogaeth. Yr oedd yn dra hoff o ddadl ar wahanol bynciau, ac nid mynych yr oedd yn cael ei baeddu. Yr oedd yn darllen llawer o'r Beibl a Salmau Iolo, yr unig lyfrau, efallai, ag oedd ganddi bob amser wrth law. Dywedai pawb am Mallen Tynewydd, ei bod yn hen wraig onest a diniwed; a llawer o beth yw hyny.

"Gwyn fyd y marw a glyw'n ddi-orn
Y gorfoleddus lef,
Gan ddeffro dan beroriaeth corn
Archangel mawr y nef"

Hydref 29ain, wedi hir gystudd, yn 32 mlwydd oed, James Davies, Gôf, Maesypwll, ger Aberarth, Ceredigion. Yr oedd yr ymadawedig yn un a berchid yn fawr yn ei ardal.

Er gŵyro o James i'r gweryd—oeraidd,
I aros am ennyd,
Cofiwn, yr Iôn a'i cyfyd
O wŷll y bedd i well byd.—C. G. AERON.

Tachwedd 6ed, yn 48 mlwydd oed, yn Pontypridd, Mary, gweddw y diweddar Benjamin Williams, Grocer, Aberaman. Dyoddefodd gystudd maith a thrwm yn amyneddgar. Gadawodd un mab ar ei hol a llawer o berthynasau i alaru eu colled.

Tachwedd 8fed, yn 46 mlwydd oed, Margaret, gwraig David Williams, New Inn, High-street, Aberdâr, gan adael mab a thair merch ar ei hol. Yr oedd yn ŵyr i'r diweddar Barch. J. Evans, (I. Glan Cothi). Y dydd Iau canlynol daeth y ddau angladd (sef y ddwy Mrs. Williams) gyda'u gilydd i'r *Cemetery*, Aberdâr, pan y gwasanaethwyd gan Mr. Lloyd, Cwmbach, a Mr. Jones, Hen Dŷ Cwrdd.

Marwolaeth ein cyfeillion sydd
Yn alwad ddwys o ddydd i ddydd;
I'r beddrod oer y cludir hwy,
Byth ni ddychwelant yma mwy.
Trwy ganlyn Crist, tywysog hedd,
Cawn fuddugoliaeth ar y bedd.

D. JENKINS, ARGRAFFYDD, HEOL Y WÎG, ABERYSTWYTH.

YR

YMOFYNYDD:

[Y DRYDEDD GYFRES.]

Gylchgrawn Misol Undodiaid Cymru.

1869.

TAN OLYGIAETH

D. L. EVANS,

ATHROFA HENADUROL, CAERFYRDDIN.

"PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

ABERYSTWYTH:

ARGRAFFWYD GAN D. JENKINS, YN SWYDDFA'R "OBSERVER," HEOL Y WÎG.

AT EIN DARLLENWYR.

Ar ddechreu blwyddyn newydd, dysgwyliwch arnom, fe allai, i ddyweyd gair neu ddau am Yr Ymofynydd. Mae bwriad genym fyned yn y blaen â'r gwaith tra y caniatao ein iechyd i ni weithio, a thra y parhaoch chwithau roddi i ni annogaeth. Er cymaint yw diffygion Yr Ymofynydd, byddai ei farwolaeth yn golled nid yn unig i'n henwad ni, ond hefyd i lawer o Drindodwyr ac ereill na pherthynant i un enwad mwy na'i gilydd. Ugeiniau o'r fath ydynt yn darllen Yr Ymofynydd yn awyddus bob mis. Ar yr antur o gael ein cyhuddo o ymffrost, nid ydym heb sail i ddyweyd nad oes nemawr o gyhoeddiadau misol Cymreig â mwy o ddarllen arnynt nag ar Yr Ymofynydd. Rhodda hyn annogaeth fawr i ni i fyned yn mlaen â'r gwaith hyd yn nod dan lawer o anhawsderau. Nis gallwn lai nag ystyried mai braint werthfawr yw cael annerch cannoedd o'n cyd-ddynion bob mis. Mae'r ystyriaeth o hyn yn ein sirioli pan weithiau yn ddigon digalon o eisieu mwy o gynorthwy oddiwrth ein cyfeillion. Mae'r fraint hon yn dâl digonol am bob trafferth. Yr unig ofid sydd arnom na fyddai y cyhoeddiad yn fwy teilwng o'ch cefnogaeth, frodyr. Yn wir yr ydym yn gwneuthur ein goreu. Gobeithio na fydd achos i ni ysgrifenu cymaint y flwyddyn hon, ond yr anturia ereill i gymeryd peth o bwys y gwaith oddiar ein hysgwyddau. Nid eisieu arbed ein hunain sydd arnom; yr ydym yn foddlon gweithio ar y maes; ond y mae chwennychiad mawr genym i weled Yr Ymofynydd yn fwy perffaith nas gall llafur cyson un ei wneuthur, a hwnw ond dyn o alluoedd digon cyffredin. Mae genym lawer o bynciau pwysfawr i'w trafod y flwyddyn hon, ond teimlwn yn dra digalon o eisieu mwy o gynorthwy selog a difrifol.

Yr Ymofynydd yw yr unig gyhoeddiad rhydd yn Nghymru, o leiaf ni wyddom ni am un arall. Yr achos ei fod yn cael ei ddarllain yn awyddus gan laweroedd o wahanol farnau yw, fod pynciau yn cael eu trafod ynddo yn fynych na feiddiant ymddangos yn y cyhoeddiadau sectaidd, neu o leiaf na feiddia yr ysgrifenwyr ddyweyd eu meddwl arnynt yn gyflawn, rhag ofn digio pabau "y *seat* fawr." Mae rhyw fantais, chwi welwch, o fod yn heretic cyhoeddus. Medda ef y fraint o ysgrifenu ei feddwl yn llwyr, pa un ai cam ai cymwys fyddo, ar bob pwnc duwinyddawl a Biblaidd, heb achos ofni *anathema* na *maranatha* unrhyw chwil-lys Protestanaidd.

Y mae'r Ymofynydd yn awr yn ddwy-ar-hugain oed oddiar y mis Medi diweddaf—gan hyny, "wedi dyfod i'w oedran," fel y dywedir. Yn ystod yr amser bu mewn perygl o'i fywyd fwy nag unwaith, ond rywfodd y mae wedi myned yn ddiogel trwy y rhan fwyaf o'r clefydau hyny a berthynant i ieuenctyd. Er dim a wyddom ni, mae ei gyfansoddiad yn gryf a gwrol, ac y mae yn drueni weithiau na chai fyw. Meddyliodd llawer iddo farw yr haf diweddaf; a mawr fu y galar o'r achos. Dywedodd un hen gyfaill, "Os eisieu arian yw'r achos, mi gyfranaf fi ato yn ol fy ngallu; oblegid byddai yn well genyf fod heb dobacco nag heb Yr Ymofynydd." Addefwn i'r gair hwnw ein cyffroi yn gymaint â dim, yn ngwyneb pob oerfelgarwch a difaterwch, i ail-gymeryd at y gwaith gyda phenderfyniad i ysgrifenu hyd yn nod y cyfan bob mis, os byddai raid. Yr unig ffordd, gyfeillion, i gadw Yr Ymofynydd ar ei draed yw, i bob un wneyd ei ran tuag ato yn *gydwybodol* yn y ffordd a allo. Diweddwn yn awr, gan ddymuno pob llwyddiant i chwi a rhwyddineb i'r gwirionedd.

Y Golygydd.

Y CYNNWYSIAD.

	TUDAL.
Aelodau Ymneillduol yn y Senedd	17
Alltyplacca	49
America, Darganfyddiad	11
Amrywion	192
"Amser, Mae digon o"	81
Anerchiad Agoriadol	55
"Anfonwch am y Gasfitter	98
Angeu du, Yr	219
Anian, Briwsion oddiar Fwrdd	19
Apology	49
Ateb Rhifyddegawl	18
Atebion	98
Atebion a Gofyniadau	48
Athenasius, Credo	210
Awgrymiad i Weinidogion	74
Beth sydd yn myned yn mlaen yn y Byd Politicaidd	169
Cae'ronen	49
Calan, Dydd	28
Cario ei Groes	133
Ceredigion, Blwyddyn newydd dda i	25
Crellius, John	163
Cyfarfod Chwarterol	50, 202
"Cyfansoddiadau Buddugol yn eiddo y Pwyllgor"	97
Cyfarwyddyd i fyw yn dduwiol	13
Cymdeithas y Nef	98
Cyrddau Chwarterol, Ein	141
Dameg, Yr Offeiriad a'r Caffaelwr	224
Darganfyddiad o Hen Lestri Arian	16
Darllenydd, At y	149
Ddatguddiad, Y ddau	205
Dedwyddwch, Y ffordd i sicrhau gwir	174
Derby, Iarll	230
D'eyd, Mr. Mae'n'wn	21
Dylanwad Ymarferol Sefyllfa Ddyfodol	6
Eglwysi, Eisieu mwy o Fywyd Crefyddol yn ein	77
Eglwysi, Gair at ein	177
Enaid heb Ystyriaeth	185
Esponiadau—	
„ Gen. iii. 22	91
„ Job ii. 4	182
„ Salm lxi. 5	133
„ Mat iv. 23	183
„ Luc xviii. 4, 5	18
„ Ioan viii. 15	14
„ „ x. 30	154
„ „ xi. 9	184
„ Actau xviii. 3	184
„ „ xx. 7	155
„ „ xx. 28	47
„ Heb. i.	181, 210
Ffeithiau	221
Ffynon hynod	140
Gair am air	199
Gelyn! Gochelwch, Y	192
Gofyniadau	20, 27
Gwasanaethu Duw	208
Haul, Yr	166, 188
Heresi, nid peth drwg ynddi ei hun	127
Iau, Y Blaned	20
Iawn Anfeidrol	110
Jerusalem ar y Pasc	216
Llyffetheiriau Wesleyaidd	191
Man melldithiedig	51
Marwolaethau 52, 76, 99, 122, 147, 175, 204, 232	
Mary, Y Frenhines, a Phrotestaniaid yr Iwerddon	171
Mawredd Pethau Bychain	44
Meddwdod, Canlyniadau	137
Morocco, a Hosiah, Ymerawdwr	3
Morley, Mr., a'r Liberation Society	15
Palestina, Daearyddiaeth 89, 136, 168, 198, 226	
Palestina, Llysieuaeth	112, 130, 156
Pabyddiaeth, Cynnydd	126
Pechod anfeidrol, a Chosp anfeidrol	53
Pregeth ar 1 Cor. vi. 14	29
„ Mat. iv. 1—11. Rhan I.	62
„ „ Rhan II.	86
„ Actau xxviii. 22	101
„ Dat. iii. 2. Rhan I.	150
Pregethu arferiadol	135
Priodasau	28, 75, 204, 232
Prydyddiaeth 22, 52, 75, 96, 116, 119, 142, 173, 200, 227	
Rhyddid Ufudd-dod	127
Rhyfeloedd o 1853 i 1866	140
Ruarus, Hanner Awr gyda	39
Senedd Newydd, Y	93
„ Agoriad y	72
Smalcius	186, 217
"Smithfield" Madrid	160
Tafod a'r Galon, Y	75
Testament Newydd, Y	134
Tirfeistri, Rhywbeth yn nghylch y	145
Traethawd ar Onestrwydd	84
Treadmill, Y	92
Undodiaid enwog, a Chynydd Undodiaeth	67
Ustusiaid, Ein	141
Weinyddiaeth, Y	69
Wil a'r Echo	42
Ymneillduwyr, Snubbo	196
Ymofynydd, Pennillion i'r	22
Ysgol Sabbothol, I Blant yr	20
Ysgol Sabbothol Pantydefaid	74